

Elizabeth
OXBORROW-COWAN

Consultant Archivist

Astudiaeth Ddichonoldeb ar gyfer Archif Genedlaethol i Gymru

2019



Cynnwys

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth	2
Crynodeb Gweithredol	3
1. Cyflwyniad	7
2. Archifau Cenedlaethol: Diffiniad a Modelau	10
3. Y Trefniadau Presennol	15
4. Archif Genedlaethol i Gymru	21
5. Modelau Posibl: Arfarnu Opsiynau	29
Atodiad 1: Cymaryddion Gwasanaethau Archifau Cenedlaethol	47
Atodiad 2: Cymaryddion Deddfwriaeth Cofnodion Cyhoeddus / Archifau Cenedlaethol	56
Atodiad 3: Costiadau Dangosol	60

Rhagair

Cymru ar hyn o bryd yw yr unig weinyddiaeth ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig sydd heb archif genedlaethol benodol. Mae'n rhaid imi gydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan yr Archif Genedlaethol yn Kew wrth ddarparu ar gyfer cofnodion cyhoeddus Cymru, ond mae hefyd yn briodol inni ofyn a yw bellach yn bryd ystyried sefydlu Archif Genedlaethol ar gyfer Cymru.

Mae archif genedlaethol yn ddull hollbwysig o gofnodi hanes a chof cenedl, gan ddogfennu a chadw tystiolaeth o benderfyniadau llywodraeth a chyrff cyhoeddus, a chofnodi hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion. Mae archif genedlaethol yn diogelu y cofnodion unigryw ac anadferadwy hyn, yn rhoi mynediad i ddinasyddion atynt gan eu galluogi i herio a sicrhau atebolrwydd y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau, a chadw cofnod i lywodraeth o benderfyniadau yn y gorffennol er mwyn llywio a chefnogi datblygiadau a phenderfyniadau polisi presennol.

Yn 2018/19 gwnaeth Llywodraeth Cymru felly ymrwymiad i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Archif Genedlaethol Cymru. Rwy'n croesawu'r adroddiad hwn sy'n darparu canfyddiadau yr astudiaeth gychwynnol, ac yn cynnig pwynt cychwyn ar gyfer trafodaeth genedlaethol.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion barhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r hyn fyddai ei angen i ddarparu Archif Genedlaethol Cymru, ac yn edrych ymlaen at drafod gyda rhanddeiliaid ar bob lefel wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.

Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM

Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Crynodeb Gweithredol

Y Cofnod Cyhoeddus

Diffinnir cofnodion cyhoeddus o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 fel cofnodion sy'n eiddo i'w Mawrhydi, yn arbennig cofnodion adrannau neu swyddfeydd y llywodraeth, ond sydd hefyd yn cynnwys cofnodion megis rhai'r GIG a'r lluoedd arfog. Maent yn hanfodol i gymdeithas am mai nhw yw'r cofnod sylfaenol diffiniol o broses, penderfyniadau a gweithredoedd llywodraeth ganolog a sefydliadau cyhoeddus eraill.

Diffinnir 'Cofnodion Cyhoeddus Cymru', sy'n cynnwys cofnodion Llywodraeth Cymru, ar wahân gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond ar hyn o bryd maent yn rhan o gylch gwaith Yr Archifau Gwladol (The National Archives - TNA) yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Mae gofalu am gofnodion cyhoeddus yn gofyn bod y nodweddion canlynol yn cael eu sicrhau:

- Dilysrwydd – mae'n cofnodi'r hyn y mae'n honni ei fod yn ei gofnodi
- Dibynadwyedd – mae'n adlewyrchiad cywir o'r hyn y mae'n ei ddogfennu
- Cyfanrwydd – mae'n rhoi cofnod cydlynol a chyflawn o'r hyn a ddogfennir, ac fe'i diogelir rhag cael ei golli neu ei lygru
- Defnyddioldeb – mae'n hygyrch ac mewn cyflwr defnyddiadwy

O gofio lefel y gweithgarwch cadw cofnodion cyhoeddus, cymhlethdod y broses o lunio cofnod a'r cymysgedd o gofnodion digidol ac analog sy'n ffurfio'r cofnod cyhoeddus presennol, mae cadw'r adnodd unigryw hwn a gofalu amdano yn gofyn am ddull gweithredu soffistigedig a phroffesiynol y darperir adnoddau ar ei gyfer mewn modd cynaliadwy.

Archif Genedlaethol i Gymru

Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig yn y DU nad oes ganddi archif genedlaethol benodedig. Ar hyn o bryd, Yr Archifau Gwladol (The National Archives - TNA), a leolir yn Kew ac sy'n gweithredu fel yr archif wladol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Deyrnas Unedig, sy'n darparu ar gyfer y swyddogaethau hyn. Mae'n gweithio yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 i nodi a chadw'r cofnod cyhoeddus a sicrhau ei fod yn hygyrch.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb am Gofnodion Cyhoeddus Cymru i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Gweinidogol. Wedyn, byddai angen i'r Cynulliad gymeradwyo ei ddeddfwriaeth cofnodion cyhoeddus ei hun er mwyn sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru neu Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus, yn dibynnu ar gwmpas ei gyfrifoldebau a'i swyddogaethau.

Byddai angen i'r ddeddfwriaeth hon ystyried y canlynol, o leiaf:

- y diffiniad o Gofnodion Cyhoeddus Cymru a ph'un a oes angen ei ymestyn er mwyn sicrhau cofnod cenedlaethol cydlynol a chyflawn;
- cwmpas swyddogaethau sy'n ymwneud â chynghori a goruchwylio cyrff cofnodion cyhoeddus mewn perthynas â rheoli eu cofnodion;
- cwmpas swyddogaethau sy'n ymwneud â chasglu a diogelu cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus sydd o werth cenedlaethol;
- cwmpas swyddogaethau sy'n ymwneud ag arwain a goruchwylio'r sector archifau yng Nghymru;
- y sefydliad(au) a fyddai'n gyfrifol am gadw Cofnodion Cyhoeddus Cymru a sicrhau eu bod yn hygyrch a chyflawni swyddogaethau cysylltiedig.

Fel Archif Genedlaethol Cymru byddai'n ofynnol i unrhyw gorff newydd gyrraedd safonau perthnasol ar gyfer arfer proffesiynol ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan ddangos darpariaeth gyfatebol i wledydd eraill y DU. Bydd datblygu'r corff hwn yn fuddsoddiad ychwanegol sylweddol ar ran Llywodraeth Cymru; o dan y trefniadau presennol darperir gwasanaethau archifau gwladol am ddim gan Yr Archifau Gwladol.

Yr Her Ddigidol

Mae tuedd i feddwl am sefydlu archif genedlaethol yn nhermau'r adeilad y mae'n ei feddiannu a'r cofnodion ffisegol o dan ei gofal. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o gofnodion modern yn cael eu llunio'n ddigidol a rheoli'r cofnod cyhoeddus digidol fydd prif swyddogaeth unrhyw Archif Genedlaethol newydd i Gymru.

Fodd bynnag, mae'r cofnod digidol, yn ei hanfod, yn agored i amrywiaeth o broblemau technegol cynhenid a seiberfygythiadau allanol. Mae angen parhau i'w reoli'n ofalus o'r adeg y caiff ei greu er mwyn sicrhau nid yn unig y bydd yn goroesi, ond hefyd ei fod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn gyflawn ac yn ddefnyddiadwy.

Mae cadw'r cofnod digidol anedig cenedlaethol a darparu mynediad ato yn waith cymhleth a heriol sy'n defnyddio llawer o adnoddau. Mae'n rhaid i unrhyw ystyriaeth a roddir i sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru feddwl o ddifrif am greu a chynnal system cadwraeth ddigidol gadarn, a buddsoddi mewn ymchwil, arbenigedd a thechnoleg. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr un sefydliad yng Nghymru y wybodaeth na'r gallu i reoli cofnodion digidol ar y raddfa sydd ei hangen.

Mae darpariaeth system annigonol yn peri risg y collir gwybodaeth hollbwysig, y methir â chydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth ac y gwneir niwed difrifol i enw da Cymru.

Modelau Posibl

Byddai sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru yn gofyn am ymrwymiad ariannol mawr¹. Ar hyn o bryd, mae'r Archifau Gwladol (TNA) yn darparu ar gyfer rheoli Cofnodion Cyhoeddus Cymru heb godi unrhyw dâl ar Lywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hwn wedi ystyried pum model ar gyfer cyflawni swyddogaethau archif genedlaethol yng Nghymru; crynhoir manteision ac anfanteision posibl y modelau hyn isod:

Model 1: Ychwanegu at y trefniadau presennol Byddai'r Archifau Gwladol yn parhau i weithredu fel y gwasanaeth archifau gwladol i'r Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr, gyda gwasanaethau ychwanegol, penodedig sy'n canolbwyntio ar Gymru.

Cryfderau

- Dyma'r ffordd gyflymaf o sicrhau y cyflawnir swyddogaethau archif genedlaethol i Gymru, gyda'r risg a'r gost isaf
- Ni fydd unrhyw darfu, ansicrwydd na chost yn gysylltiedig â sefydlu corff newydd
- Caiff cofnod cyhoeddus Cymru ei reoli heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru
- Manteision parhaus gwybodaeth ac arfer arbenigol Yr Archifau Gwladol
- Gallai gwasanaethau digidol newydd ehangu mynediad gyda ffocws ar Gymru

Gwendidau

- Byddai cofnodion Cymru yn cael eu cadw gan sefydliad wedi'i leoli yn Llundain (er y byddai ganddo gylch gwaith yn cwmpasu Cymru a Lloegr a rôl ehangach yn cwmpasu'r DU gyfan); ni châi unrhyw wasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru

¹Mae costau dangosol yn awgrymu y byddai'r buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen mewn adeilad rhwng £15 ac £20 miliwn; byddai'r swyddogaeth cadwraeth ddigidol yn gofyn am fuddsoddiad o £9 miliwn o leiaf dros bob pum mlynedd weithredu; a byddai angen cyllid refeniw o rhwng £2.1 a £7.5 miliwn y flwyddyn ar y corff newydd (Gweler Atodiad 3).

- Nid yw'n darparu ffocws na hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; Cymru fyddai'r unig un o wledydd y DU heb archif genedlaethol benodol o hyd
- Gallai greu rhaniadau artiffisial rhwng cofnodion 'y DU' a chofnodion 'Cymru' sy'n rhwystro mynediad a dealltwriaeth
- Byddai gwasanaethau digidol newydd yn ehangu mynediad gyda ffocws ar Gymru, ond am *gost ychwanegol* i Lywodraeth Cymru; gallai datblygu'r gwasanaethau hyn fod yn broses gymhleth a drud
- Dim manteision ehangach i'r sector archifau ehangach yng Nghymru

Model 2: Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus i Gymru Cyfrifol am gofnodion Llywodraeth Cymru, a chofnodion cyrff 'cofnodion cyhoeddus Cymru'.

Cryfderau:

- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; yn gydradd, i raddau, â gwledydd eraill y DU; câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru

Gwendidau:

- Opsiwn cyfyngedig, sy'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol, a buddsoddiad sylweddol, ond nad yw'n sicrhau'r manteision ehangach i dreftadaeth ddogfennol / y sector archifau ehangach yng Nghymru
- Mae natur casgliadau (cofnodion modern) yn annhebygol o danio dychymyg y cyhoedd

Model 3: Archif Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; arwain y sector archifau Archif Genedlaethol i Gymru â chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar gasglu a rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru a darparu mynediad atynt, pwerau statudol i oruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol, a rôl arwain ar gyfer y sector archifau ehangach.

Cryfderau:

- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; mae'n sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn debycach i'r un yng ngwledydd eraill y DU; câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru
- Mae'n helpu i ddiogelu treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru ac yn ychwanegu gwerth o ran arwain a chefnogi'r sector archifau

Gwendidau:

- Opsiwn mwy cymhleth, sy'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol, a buddsoddiad sylweddol
- Mae natur casgliadau (cofnodion modern) sy'n annhebygol o danio dychymyg y cyhoedd

Model 4: Archif Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; arwain y sector archifau; a darparu gwasanaethau canolog Archif Genedlaethol i Gymru â chyfrifoldebau am gofnodion cyhoeddus Cymru, pwerau statudol dros weithgarwch cadw cofnodion awdurdodau lleol, a rôl arwain ar gyfer y sector archifau, gan gynnwys gwasanaethau cymorth canolog.

Cryfderau:

- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; model cyflawni sydd ar y blaen i fodolau cyflawni gwledydd eraill y DU; câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru
- Mae'n helpu i ddiogelu treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru ac yn ychwanegu gwerth o ran arwain y sector archifau a rhoi cymorth ymarferol gwirioneddol iddo

Gwendidau:

- Opsiwn mwy cymhleth fyth, sy'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol a buddsoddiad ychwanegol sylweddol
- Gallai amharu ar y trefniadau ar gyfer darparu adnoddau i sefydliadau cenedlaethol eraill

Model 5: System Archifau Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; darparu gwasanaethau archifau lleol Cynnwys archifau awdurdodau lleol fel rhan o system i Gymru gyfan ochr yn ochr ag archif genedlaethol ganolog â chyfrifoldebau am gofnodion cyhoeddus Cymru ac am oruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol.

Cryfderau:

- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol system archifol genedlaethol Gymreig, sy'n cwmpasu corff cenedlaethol canolog, a mannau gwasanaeth lleol; model cyflawni unigryw ac uchelgeisiol sydd ar y blaen i fodelau cyflawni gwledydd eraill y DU
- Câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru; mae'r model yn sicrhau y darperir gwasanaeth cyfartal ledled Cymru, gan gynnal gwasanaethau lleol
- Mae'n diogelu treftadaeth ddogfennol wirioneddol genedlaethol Cymru, gyda model cyflawni sy'n gysylltiedig ledled y wlad

Gwendidau:

- Opsiwn cymhleth iawn a'r un drutaf, sy'n gofyn am fuddsoddiad sylweddol ac amserlen hir
- Mae'n gofyn am wneud newidiadau deddfwriaethol a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am gadw eiddo a chofnodion
- Mae'n bosibl na fydd yn dderbyniol ar lefel wleidyddol leol

1. Cyflwyniad

*"A nation must be judged on how it conserves its archives.
Our future depends on our past and we must make sure that it is always available."*

Yr Arglwydd Montagu o Beaulieu, Tŷ'r Arglwyddi, 1994

Cefndir

Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig yn y DU nad oes ganddi archif genedlaethol benodedig. Yn 2018/19, felly, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer Archif Genedlaethol i Gymru.

Comisiynwyd Elizabeth Oxborrow-Cowan Associates i gwblhau arfarniad cychwynnol o opsiynau fel rhan o'r broses o gyflawni'r astudiaeth ddichonoldeb hon, ac fel sail i waith ymchwil pellach.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth gychwynnol hon o'r posibilrwydd o sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru. Mae'n ystyried natur cofnodion cyhoeddus a nodweddion archif genedlaethol effeithiol, yr 'ecosystem' archifol bresennol yng Nghymru a'r ddarpariaeth bresennol o ran archifau cenedlaethol, gofynion deddfwriaethol a gofynion eraill, a'r heriau penodol sy'n gysylltiedig â rheoli'r cofnod digidol. Mae'r adroddiad yn gorffen gydag asesiad lefel uchel o fodelau gwasanaeth posibl ar gyfer cyflwyno Archif Genedlaethol.

Methodoleg

Cafodd y dull gweithredu a'r fethodoleg ar gyfer yr astudiaeth hon eu llunio i nodi ar y cyd y model gwasanaeth mwyaf priodol ar gyfer cyflawni swyddogaethau archif genedlaethol yng Nghymru.

Er mwyn cyflawni'r gwaith hwn, cynhaliodd Elizabeth Oxborrow-Cowan Associates y canlynol:

- Adolygiad cynhwysfawr o'r system cofnodion cyhoeddus bresennol, a'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddi, gan gynnwys Deddf Llywodraeth Cymru.
- Dadansoddiad o fodelau archifau cenedlaethol, gan gynnwys adolygiad o ddeddfwriaeth Saesneg sy'n sail i archifau cenedlaethol eraill yn y DU a thu hwnt;
- Ymarfer i broffilio'r 'ecosystem' archifol bresennol yng Nghymru; gan nodi cryfderau a gwendidau'r ddarpariaeth bresennol;
- Trafodaeth â rhanddeiliaid allweddol ar lefel genedlaethol ac yn y sector drwy gyfres o weithdai a chyfweiliadau;
- Cyfweiliadau ag arweinwyr archifau cenedlaethol o wledydd eraill y DU;
- Cyfweiliadau â phrif swyddogion gweithredol archifau cenedlaethol o gymaryddion rhyngwladol yn Awstralia, Canada, Iwerddon a Seland Newydd;
- Gwerthusiad o'r problemau sy'n gysylltiedig â darparu archif genedlaethol, sy'n ymwneud â rheoli gwybodaeth ddigidol a'r gofynion ar gyfer cadw'r cofnod digidol cenedlaethol;
- Nodi ac arfarnu'r opsiynau posibl ar gyfer cyflawni swyddogaethau archif genedlaethol yng Nghymru.

T Y Cofnod Cyhoeddus

Gellir diffinio 'cofnod' fel:

*'...information created, received and maintained as evidence and as an asset by an organization or person, in pursuit of legal obligations or in the transaction of business.'*²

Gall cofnodion fod mewn unrhyw fformat.

Mae cofnodion cyhoeddus yn fath o gofnod a ddiffinnir yn gyfreithiol. Yn y DU o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 (Atodlen 1) diffinnir cofnodion cyhoeddus fel cofnodion sy'n eiddo i'w Mawrhydi, yn arbennig cofnodion adrannau a swyddfeydd y llywodraeth, comisiynau neu gyrff eraill o dan y llywodraeth (gan gynnwys, er enghraifft, asiantaethau gweithredol). Maent hefyd yn cynnwys cofnodion llysoedd a thribiwnlysoedd, cyrff y GIG a'r lluoedd arfog.

Diffinnir 'cofnodion cyhoeddus Cymru', ar wahân gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ond ar hyn o bryd maent yn rhan o gylch gwaith Yr Archifau Gwladol (y DU, Cymru a Lloegr) yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Pam mae 'cofnodion cyhoeddus' yn bwysig?

Mae cofnodion cyhoeddus yn bwysig am mai nhw yw'r cofnod sylfaenol diffiniol o broses, penderfyniadau a gweithredoedd llywodraeth ganolog a sefydliadau cyhoeddus eraill. Felly, maent yn galluogi sawl swyddogaeth hanfodol mewn cymdeithas ddemocrataidd, sef:

- Sicrhau atebolrwydd democrataidd; darparu tystiolaeth o benderfyniadau a gweithredoedd y llywodraeth.
- Llywio penderfyniadau'r llywodraeth a galluogi busnes y llywodraeth drwy ddogfennu gweithredoedd yn y gorffennol.

- Sicrhau cyfiawnder a rheolaeth y gyfraith drwy nodi penderfyniadau a chynsail llysoedd barn.
- Darparu adnodd cyfoethog ar gyfer ysgolheictod, ymchwil ac addysg; llywio meysydd mor amrywiol â hawliau dynol, dinasyddiaeth, ymholi hanesyddol a busnes masnachol.
- Ffurfio rhan o seilwaith ehangach o gofnodion hanesyddol, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio storfa profiad cenedl; creu hunaniaeth unigol, gymunedol a chenedlaethol.

Nodweddion y cofnod cyhoeddus

Er mwyn sicrhau ansawdd a defnyddioldeb y cofnod cyhoeddus mae pedair nodwedd y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol a chael eu cynnal waeth pa fath o gofnod ydyw, sef:

Dilysrwydd – mae angen i ni allu bod yn hyderus bod y cofnod yn dogfennu'r hyn y mae'n honni ei fod yn ei ddogfennu.

Dibynadwyedd – mae angen i ni fod yn hyderus ei fod yn cynrychioli'r digwyddiad y mae'n ei ddogfennu yn gywir (gan ddarparu ar gyfer safbwynt lluniwr y cofnod).

Cyfanrwydd – mae angen i ni allu gweld digon o fanylion ac awdurdod yn y cynnwys er mwyn darparu cofnod cydlynol o'r digwyddiad sy'n cael ei ddogfennu. Dylid diogelu systemau a ddefnyddir i storio cofnodion rhag cael eu llygru, eu colli neu eu dwyn neu rhag unrhyw weithgarwch arall a allai beryglu eu cyfanrwydd.

Defnyddioldeb – mae'n rhaid i'r archif fod mewn lleoliad hygyrch ac mewn cyflwr defnyddiadwy. Golyga hyn y dylai fod yn bosibl i'r rhai a allai fod â diddordeb mewn defnyddio'r cofnodion ddod o hyd iddynt ac y dylent fod yn ddarllenadwy ac yn ddigon cadarn fel na chânt eu difrodi wrth gael eu defnyddio.

² ISO 15489-1:2016 Information and documentation -- Records management

Cynnal y cofnod cyhoeddus

Mae sawl dull a dderbynnir o gynnal y nodweddion hanfodol hyn.

Bydd rhaglen rheoli cofnodion (neu wybodaeth) yn ymgorffori sawl strategaeth ar gyfer sicrhau dilysrwydd, dibynadwyedd, cyfanrwydd a defnyddioldeb cofnodion.

Bydd y strategaethau hyn yn helpu i sicrhau bod cofnodion yn ddefnyddiol ar gyfer busnes o ddydd i ddydd am gyhyd ag sydd ei angen ond hefyd y gellir eu cadw'n effeithiol fel archifau.

- Mae angen dewis y cofnodion cywir i'w cadw'n barhaol a'u trosglwyddo i storfa addas.
- Mae angen casglu a chadw gwybodaeth am y cofnodion (metadata) er mwyn dangos eu bod yn ddilys ac yn gyflawn.
- Mae'n rhaid adolygu cofnodion er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion o ran sensitifrwydd a chau cofnodion, yn unol â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth.

- Mae'n rhaid i fesurau diogelu gwybodaeth fod o safon addas er mwyn atal pobl rhag ymyrryd â chofnodion neu fynd â nhw ymaith heb awdurdod.
- Mae angen i gymhorthion canfod fod ar gael er mwyn sicrhau y gellir darganfod ac adalw cofnodion.
- Mae'n rhaid sefydlu rhaglenni cadw a gwarchod er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio cofnodion; mae hyn yn peri heriau penodol i gofnodion mewn fformatau digidol.

Felly, mae cynnal y cofnod cyhoeddus hanesyddol yn gofyn am archif genedlaethol â diben clir, a ategir gan seilwaith digonol o elfennau ffisegol, digidol, rhyngbersonol a deallusol i fodloni pob un o'r gofynion hyn.

Yr adroddiad hwn

Datblygwyd yr adroddiad hwn gan Elizabeth Oxborrow-Cowan (Archifydd Ymgynghorol) gyda chynngor arbenigol gan Paul Gibbons (Ymgynghorydd Rhyddid Gwybodaeth) a James Grimster (Cyfarwyddwr Orangeleaf Systems).

Cymerodd cynrychiolwyr o Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Amgueddfa Cymru ran mewn cyfres o weithdai.

Mae'r awduron hefyd yn ddiolchgar i'r sefydliadau canlynol am eu cyfraniad: Archifau Cenedlaethol Awstralia; Archifau Seland Newydd; Llyfrgell ac Archifau Canada; Yr Archifau Gwladol; Cofnodion Cenedlaethol yr Alban; Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon; Archifau Cenedlaethol Iwerddon.

Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn: mae Pennod 2 yn adolygu diffiniadau a modelau ar gyfer archifau cenedlaethol; mae Pennod 3 yn ystyried y trefniadau presennol, y system cofnodion cyhoeddus, rôl Yr Archifau Gwladol a'r sector archifau yng Nghymru; ac mae Pennod 4 yn nodi'r gofynion ar gyfer darparu archif genedlaethol, gan gynnwys yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â'r cofnod digidol. Mae'r adroddiad yn gorffen gydag arfarniad opsiynau o'r modelau gweithredu posibl a nodwyd (Pennod 5).

Mae'r Atodiadau yn rhoi gwybodaeth ategol am wasanaethau a deddfwriaeth archifau cenedlaethol ac yn nodi costiau dangosol

2. Archifau Cenedlaethol: Diffiniad a Modelau

“Member States are encouraged to provide appropriate legislative frameworks for memory institutions and ensure their necessary independence in preserving and providing access to documentary heritage.”

UNESCO, Argymhelliad ar Dreftadaeth Ddogfennol, 2015

Diffiniad

Deilliodd yr archif genedlaethol fel cysyniad o fodel y swyddfa cofnodion cyhoeddus ar gyfer darpariaeth archifol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau ddull gweithredu yn ymwneud, yn y bôn, â chwmpas cyfrifoldeb.

Mae'r swyddfa cofnodion cyhoeddus yn canolbwyntio ar guradu cofnodion cyhoeddus a darparu mynediad atynt, ac mae'n cyflawni diben cadw cofnodion penodol heb ystyried materion allanol.

Mae archif genedlaethol yn cyflawni cyfrifoldebau ehangach yn y sector archifau er mwyn sicrhau iechyd y dreftadaeth archifol genedlaethol, lledaenu dealltwriaeth

ac annog unigolion i ddefnyddio'r dreftadaeth honno.

Mae deddfwriaeth archifau modern yn tueddu i ganolbwyntio ar sefydlu archifau cenedlaethol yn hytrach na swyddfeydd cofnodion cyhoeddus. Mae sawl gwlad hefyd wedi newid storfa eu harchifau cenedlaethol o fod yn swyddfa cofnodion cyhoeddus i wasanaeth archifau cenedlaethol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, daeth Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus y DU yn Archifau Gwladol yn 2003.

Crynhair y gwahaniaethau swyddfa cofnodion cyhoeddus a gwasanaeth archifau cenedlaethol yn y tabl isod:

Swyddfa cofnodion cyhoeddus	Gwasanaeth Archifau Cenedlaethol
Mae'n casglu cofnodion cyhoeddus yn unig	Gall gasglu cofnodion sefydliadau anllywodraethol ac unigolion
Mae ond yn rhoi cyngor ar ofalu am gofnodion cyhoeddus a mynediad atynt	Mae'n rhoi canllawiau a chynghor ar faterion archifol i sefydliadau'r llywodraeth a sefydliadau anllywodraethol
	Mae'n mynd ati'n rhagweithiol i gyfleu gwerth archifau a'r defnydd ohonynt yn gyffredinol
	Yn aml mae ganddo swyddogaeth addysgol ddatganedig
Mae'n canolbwyntio ar ei gweithgareddau ei hun heb gylch gwaith ehangach i'r gymuned archifol.	Cyfrifoldeb ehangach i gefnogi'r gymuned archifol yn y wlad yn gyffredinol.
	Mae'n cyflawni swyddogaeth arolygu mewn perthynas â sefydliadau eraill sy'n cadw cofnodion cyhoeddus er mwyn sicrhau y gofelig am y cofnodion hynny

Rhinweddau Craidd

Nid oes un model penodol ar gyfer archif genedlaethol. Mae pob gwlad yn datblygu ei dull gweithredu ei hun. Serch hynny, mae archif genedlaethol yn sefydliad penodol iawn. Waeth sut mae wedi'i chyfansoddi mae nodweddion allweddol y mae'n rhaid iddi feddu arnynt er mwyn iddi allu sicrhau a darparu mynediad at y cofnod cyhoeddus yn yr hirdymor.

Fel rhan o'r ymchwil a wnaed ar gyfer yr astudiaeth hon ymgynghorwyd â nifer o sefydliadau archifau cenedlaethol rhyngwladol ynghylch realiti ymarferol y ffordd y maent wedi'u cyfansoddi. Mae'r rhinweddau craidd canlynol yn cynnwys crynodeb o'u barn ynglŷn â'r hyn sydd ei angen ar gyfer darpariaeth effeithiol yng nghyd-destun Archif Genedlaethol i Gymru.

Ar gyfer y genedl	- Mae'n ddull effeithiol o sicrhau atebolrwydd ar gyfer pobl Cymru drwy gofnod ystyrion o weithgarwch Llywodraeth Cymru - Mae'n ymgorffori, yn diogelu ac yn hyrwyddo diwylliant, hunaniaeth ac iaith y genedl i unigolion a chymunedau; mae'n cynrychioli Cymru yn y DU ac yn rhyngwladol - Mae'n ategu sefydliadau cenedlaethol eraill ac yn gweithio gyda nhw er mwyn sicrhau arlwy diwylliannol cenedlaethol cydlynol - Mae'n cefnogi 'ecosystem' archifol ehangach Cymru er mwyn sicrhau system gynhwysfawr o gasglu, gofalu a mynediad ar gyfer hanes dogfennol y genedl
Statudol	- Archif Genedlaethol i Gymru â chyfrifoldebau, rolau a chylch gwaith diffiniedig - Diffiniad clir o gofnodion cyhoeddus Cymru a phwerau er mwyn sicrhau y byddant yn goroesi fel tystiolaeth ar gyfer y genedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol - Mae potensial ar gyfer pwerau statudol i oruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus yn ehangach; gan sicrhau atebolrwydd democrataidd a thryloywder ehangach
Awdurdodol	- Fe'i cydnabyddir am ei chyfrifoldebau a'r gwaith y mae'n ei wneud i oruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion o fewn Llywodraeth Cymru ac, o bosibl, y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru; pwerau statudol i weithredu'n effeithiol yn ei rôl ddiffiniedig - Rôl benodol i Weinidog cyfrifol / corff cynghori - Fe'i cydnabyddir yn rhyngwladol am ei rhagoriaeth mewn arfer archifol, gan weithio o fewn fframweithiau safonau cenedlaethol a rhyngwladol
Annibynnol	- Digon annibynnol ar Lywodraeth Cymru i gyflawni ei swyddogaethau'n wrthrychol - Caiff ei llywio yn ei gweithgareddau gan Gyngor Cynghori annibynnol, gwybodus
Hirdymor	- Mae'n casglu ar gyfer y dyfodol; gan sicrhau cofnod awdurdodol, cydlynol a llawn o lywodraeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol - Darperir adnoddau ar ei chyfer mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau bod cofnod cyhoeddus Cymru yn parhau'n hygyrch yn yr hirdymor

Diogel	• Adnoddau a seilwaith i sicrhau diogelwch a chyfanrwydd ffisegol a deallusol cofnod digidol ac analog Cymru • Mae'n ymwybodol o risg; gan sicrhau bod seilwaith a thystiolaeth genedlaethol hanfodol yn cael eu dal yn ddiogel a'u bod yn parhau i fod yn hygyrch • Systemau cadarn er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â gofynion statudol
Hygyrch	• Mae'n sicrhau hygyrchedd cofnod cyhoeddus Cymru at ddibenion atebolrwydd ac ymchwil • Mae'n dryloyw; gan weithredu ar sail mynediad agored at gofnodion, oni bai bod rhesymau clir dros gau cofnodion • Mae'n agored ac yn hygyrch i bawb, yn ffisegol ac ar-lein; mae'n mynd ati'n rhagweithiol i fynd â gwasanaethau allan at randdeiliaid
Corff gweladwy a hysbys y gellir ymddiried ynddo	• Mae'n uchel ei phroffil ymhlith rhanddeiliaid fel corff cenedlaethol hysbys y gellir ymddiried ynddo yng Nghymru • Mae'n hysbys i bawb a fyddai'n cael budd o allu defnyddio ei gwasanaethau a'i chasgliadau
Mae'n gweithredu ar raddfa	• Mae ganddi'r adnoddau i nodi, dewis, rheoli a chadw casgliadau mawr a chymhleth a darparu mynediad atynt; gan ddiogelu cofnod cyhoeddus Cymru a darparu mynediad ato
Yn ddigidol yn ei hanfod	• Yr adnoddau a'r seilwaith i reoli archif digidol anedig heddiw; gall ateb yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â chadw'r cofnod hwn yn yr hirdymor • Systemau a gwasanaethau sy'n galluogi mynediad drwy gyfryngau a sianeli digidol, er mwyn bodloni disgwyliadau a gofynion defnyddwyr • Y sgiliau a'r adnoddau i gymryd rhan mewn trafodaethau proffesiynol ac ehangach ynghylch defnyddio technolegau digidol; mae mewn sefyllfa i sicrhau arfer gorau a rhannu gwersi a ddysgwyd yn rhyngwladol
Arweinydd ym maes arfer archifol	• Fe'i cydnabyddir am ei harbenigedd ym maes arfer archifol; gyda seilwaith, adnoddau a staff medrus i gefnogi prosesau cyflawni gweithredol effeithiol • Datblygu a sicrhau arfer gorau o ran rheoli cofnodion archifol (analog a digidol); fe'i cydnabyddir yn rhyngwladol fel arweinydd yn y maes
Cysylltiedig	• Cydberthnasau dynamig a chynhyrchiol â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod cofnod cyhoeddus Cymru yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel • Cydweithredol; gweithio gydag archifau a sefydliadau diwylliannol eraill i ddatblygu gwasanaethau gwell a rhannu gwersi a ddysgwyd • Yn rhyngwladol o ran ei hagwedd, ei dyheadau a'i chydberthnasau
Cymhleth a hyblyg	• Mae ganddi'r adnoddau a'r hyblygrwydd i reoli casgliadau amrywiol mawr sy'n tyfu'n barhaus ac sy'n dechnegol gymhleth; gan fodloni gofynion statudol a diwallu anghenion dynamig

Modelau ar gyfer Archif Genedlaethol i Gymru

Nododd y brîff ar gyfer yr astudiaeth hon bedwar opsiwn posibl ar gyfer sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru. Wrth wneud yr ymchwil ar gyfer yr astudiaeth hon nodwyd ac ystyriwyd pumed opsiwn hefyd. Nodir y rhain yn y tabl canlynol; ceir gwybodaeth am sefydliadau cymaryddion yn Atodiad 1. Ceir adolygiad manwl o bob un o'r modelau hyn ym Mhennod 5.

Model 1: Ychwanegu at y trefniadau presennol

O dan y model hwn ni fyddai unrhyw Archif Genedlaethol ar wahân i Gymru a byddai'r Archifau Gwladol (The National Archives - TNA), a leolir yn Kew, yn parhau i weithredu fel y gwasanaeth archifau gwladol ar gyfer y Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr, gan fynd yn gyfrifol am 'gofnodion cyhoeddus Cymru' a rhoi rhywfaint o gymorth i'r sector archifau yng Nghymru (gweler Pennod 3) mewn perthynas â'r gwaith y mae'n ei wneud i oruchwyllo 'mannau adneuo' lleol ar gyfer cofnodion cyhoeddus. Fodd bynnag, câi gwasanaethau ychwanegol penodedig sy'n canolbwyntio ar Gymru – e.e. catalogau, adnoddau canfod, cynnwys addysgol, deunydd a roddwyd ar fenthyl i sefydliadau yng Nghymru – eu datblygu.

Cymaryddion: Ni nododd yr ymchwil hon enghraifft o strwythur o'r fath sy'n bodoli eisoes.

DS: Byddai'r model hwn yn gofyn am ddeialog agos â'r Archifau Gwladol er mwyn datblygu gwasanaethau a oedd yn ymarferol ac yn dderbyniol i bob parti a phenderfynu sut y byddai'r adnoddau i ddatblygu'r gwasanaethau ychwanegol hyn yn cael eu darparu.

Model 2: Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Cymru

O dan y model hwn byddai swyddfa cofnodion cyhoeddus i Gymru yn cael ei sefydlu, gyda chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar gasglu a rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru a chofnodion cyrff 'cofnodion cyhoeddus Cymru' penodedig eraill a darparu mynediad atynt.

Cymaryddion: Nid yw'r model hwn yn un cyffredin mwyach yng ngwledydd y gorllewin, lle mae'r rhan fwyaf yn gweithredu rhyw fath o archif genedlaethol. Un cymharydd posibl yw Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Ynys Manaw, er ei bod yn gweithredu ar raddfa lawer llai na'r hyn a fyddai'n ofynnol yn achos Cymru.

Model 3: Archif Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; arwain y sector archifau

O dan y model hwn byddai Archif Genedlaethol i Gymru yn cael ei sefydlu, gyda chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar gasglu a rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru a chofnodion cyrff 'cofnodion cyhoeddus Cymru' penodedig eraill a darparu mynediad atynt. At hynny, byddai ganddo bwerau statudol i oruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol er mwyn cynnal ansawdd y cofnod o lywodraeth leol. Byddai ganddo rôl arwain i'w chwarae hefyd wrth gefnogi'r sector archifau ehangach, drwy roi cyngor a chanllawiau, hyfforddiant a chymorth ar gyfer gwaith partneriaeth.

Cymaryddion: Mae Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (National Records of Scotland - NRS) yn cyflawni rolau digon tebyg. Mae NRS yn casglu cofnodion llywodraeth ganolog yr Alban o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus (yr Alban) 1937 ac yn goruchwyllo'r gwaith o reoli cofnodion awdurdodau lleol o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus (yr Alban) 2011. Mae NRS yn cyfeirio cyllid wedi'i neilltuo gan Lywodraeth yr Alban at Gyngor yr Alban ar Archifau sy'n cyflawni rôl arwain ar gyfer y sector.

Model 4: Archif Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; arwain y sector archifau a darparu gwasanaethau canolog

O dan y model hwn byddai Archif Genedlaethol i Gymru yn cael ei sefydlu, gyda chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar gasglu a rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru a chofnodion cyrff 'cofnodion cyhoeddus Cymru' penodedig eraill a darparu mynediad atynt. At hynny, byddai ganddo bwerau statudol i oruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol er mwyn cynnal ansawdd y cofnod o lywodraeth leol. Byddai ganddo rôl arwain i'w chwarae hefyd wrth gefnogi'r sector archifau ehangach, drwy roi cyngor a chanllawiau, hyfforddiant a *darparu gwasanaethau cymorth canolog*. Er y byddai angen diffinio'r rhain gallent gynnwys cadwraeth ddigidol, cadwraeth, rhaglenni catalogio a gweithgarwch allgymorth.

Cymaryddion: Ni nododd yr ymchwil hon enghraifft o strwythur o'r fath sy'n bodoli eisoes.

DS: O dan y model hwn yr awdurdod lleol, drwy ei wasanaeth archifau ei hun, a fyddai'n gyfrifol am gasglu a rheoli cofnodion awdurdodau lleol a darparu mynediad atynt o hyd.

Model 5: System Archifau Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; darparu gwasanaethau archifau lleol

O dan y model hwn câi System Archifau Cenedlaethol newydd ei sefydlu, a fyddai'n cynnwys swyddfeydd cofnodion awdurdodau lleol fel rhan o system i Gymru gyfan ochr yn ochr ag archif genedlaethol ganolog. Byddai'r cyfrifoldeb am gasglu a rheoli cofnodion a darparu mynediad atynt yn cwmpasu cofnodion Llywodraeth Cymru a chofnodion cyrff 'cofnodion cyhoeddus Cymru' penodedig eraill, yn ogystal â chofnodion llywodraeth leol. At hynny, byddai ganddo bwerau statudol i oruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol er mwyn cynnal ansawdd y cofnod o lywodraeth leol.

Cymaryddion: Mae hwn yn fodel a ddefnyddir mewn gwledydd Ewropeaidd penodol lle mae holl weithgarwch archifo llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn rhan o gylch gwaith yr Archif Genedlaethol. Gall fod wedi'i ganoli mewn un lleoliad ai peidio, a gall fod yn rhwydwaith ffederal o wasanaethau ffisegol sy'n gweithio yn unol â gweledigaeth a nodau cyffredin. Yn y DU yr enghraifft agosaf yw Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (Public Record Office of Northern Ireland - PRONI) sydd, ers iddi gael ei chreu yn 1924, wedi cyflawni swyddogaethau archif genedlaethol, llyfrgell genedlaethol a swyddfa cofnodion sirol ar gyfer chwe sir Gogledd Iwerddon, gan gynnwys cadw casgliadau preifat ac eglwysig.

DS: Byddai'r model hwn yn gofyn am ddeialog agos ag awdurdodau lleol ac ystyried yn ofalus sut y byddai storfeydd yn cael eu dosbarthu ledled Cymru; o ystyried perthnasedd lleol enfawr casgliadau archifau awdurdodau lleol, efallai na fydd un lleoliad yn addas.

3. Y Trefniadau Presennol

"National Archives should be given a leadership role within the community of archival institutions . . . to facilitate the development of a national archival system or network."

Y Cyngor Rhyngwladol ar Archifau, 2001

Y System Cofnodion Cyhoeddus

Fel yr archif wladol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Deyrnas Unedig, mae'r Archifau Gwladol (TNA), a leolir yn Kew, yn cynnwys cofnodion o bob rhan o lywodraeth ganolog y DU, a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Archifau Gwladol yn gweithio yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958, y mae ei darpariaethau yn cynnwys penodi Ceidwad y Cofnodion Cyhoeddus sydd â dyletswydd i gymryd camau ymarferol i gadw cofnodion cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf.

Mae'n rhaid i gyrff cofnodion cyhoeddus ddewis cofnodion cyhoeddus (analog a

digidol) a'u trosglwyddo i'r Archifau Gwladol neu 'fan adneuo' cymeradwy o fewn 20 mlynedd (y Rheol 20 Mlynedd) ar ôl iddynt gael eu creu. Disgwylir i adrannau'r Llywodraeth a chyrff cofnodion cyhoeddus eraill benodi Swyddog Cofnodion Adrannol³ i reoli'r broses hon ar y cyd â'r Archifau Gwladol.

Mae'r Archifau Gwladol hefyd yn arfer pwerau i bennu mannau adneuo ar gyfer dosbarthiadau penodol o gofnodion. Mae'n rhaid i'r rhain allu darparu 'cyfleusterau addas ar gyfer diogelu a chadw cofnodion lle y gall y cyhoedd edrych arnynt'.

Cofnod Cyhoeddus Cymru

Yn 2006, creodd Deddf Llywodraeth Cymru ddsbarth penodol o gofnodion cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, nes i orchymyn gael ei wneud i Weinidogion Cymru gymryd pwerau i gadw cofnodion cyhoeddus Cymru, maent yn parhau i gael eu trin yn unol â thelerau Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Dylid nodi nad yw'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus Cymru yn cwmpasu cofnodion a grëir yng Nghymru gan swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli. Er enghraifft, cofnodion llys, lle mae'r system llysoedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr fel un endid.

Mae cofnodion cyhoeddus Cymru (a ddiffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru) yn gofnodion gweinyddol ac adrannol o'r canlynol:

- Llywodraeth Cymru
- yr Archwilydd Cyffredinol
- Awdurdod Refeniw Cymru
- unrhyw un o adrannau'r Llywodraeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion Cymreig
- unrhyw swyddfa, comisiwn neu gorff arall o dan y llywodraeth sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion

Cymreig neu sydd mewn maes y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau ynddo

- unrhyw un a nodir mewn gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol
- cyrff a restrir yn a.148(2) gan gynnwys cyrff y GIG, Cyngorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch Cymru, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a sawl corff arall.

³ Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi ei Swyddog Cofnodion Adrannol ei hun.

Rôl Yr Archifau Gwladol

Ar hyn o bryd, mae'r Archifau Gwladol (The National Archives - TNA), a leolir yn Kew, yn gweithredu fel yr archif wladol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Deyrnas Unedig. Mae ei chyfrifoldebau statudol fel a ganlyn:

- Sicrhau y caiff y cofnod cyhoeddus ei weinyddu'n ddiogel drwy gydgyssylltu â chyrff creu cofnodion er mwyn rhoi cyngor ar gadw cofnodion a hwyluso'r gwaith o drosglwyddo cofnodion dethol i TNA.
- Darparu cyfundrefn rheoli casgliadau gynhwysfawr er mwyn sicrhau y bydd cofnodion a drosglwyddwyd yn goroesi ac y byddant yn ddefnyddiadwy yn yr hirdymor.
- Darparu mynediad i'r cyhoedd lle y bo'n briodol; mae hyn bellach yn cynnwys mynediad ar-lein, drwy'r ystafell chwilio gyhoeddus, a thrwy raglen addysg ac allgymorth helaeth.
- Pennu a monitro 'Mannau Adneuo' cymeradwy er mwyn sicrhau eu bod yn addas i dderbyn cofnodion cyhoeddus a darparu mynediad atynt.
- Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y gwaith y mae'n ei wneud mewn perthynas â chofnodion cyhoeddus.

Mae gan TNA gyfrifoldebau hefyd am gofnodion cyhoeddus o dan Warrant y Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol⁴; mae hyn yn cynnwys cyhoeddi gwybodaeth am leoliad a natur cofnodion o bob math ledled y DU, gan dynnu sylw at eu gwerth o safbwynt ymchwil a rhoi cyngor ar sut i ofalu amdanynt.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn mae'r Archifau Gwladol yn gwneud y canlynol:

- Buddsoddi mewn ymchwil a datblygu er mwyn sicrhau y caiff y cofnod cyhoeddus

ei warchod ac y bydd yn ddefnyddiadwy yn yr hirdymor; yn arbennig ym maes newydd cadwraeth ddigidol sy'n dechnegol gymhleth.

- Cydgysylltu cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau yn ganolog (mae'n ofynnol i bob man adneuo gyrraedd y Safon Achredu).
- Mae'n datblygu ac yn cynnal 'Discovery' (chwiltwr i gasgliadau a gwasanaethau archifau ledled y DU), a'r Gofrestr Dogfennau Maenoraidd (mynegai o gofnodion maenoraidd o Gymru / Lloegr).

Mae gan Yr Archifau Gwladol gyfrifoldebau ychwanegol yn y meysydd canlynol:

- Cyfrifoldeb arwain ar gyfer y sector archifau yn Lloegr
- Cymorth i'r sector archifau yn fwy cyffredinol drwy ddatblygu safonau a rhoi arweiniad arbenigol i archifau cyhoeddus a phreifat ledled Cymru a Lloegr.
- Rhoi cyngor arbenigol ar ddeunydd archifol i'r Panel Derbyn yn Lle Treth, sy'n rhoi cyngor i Weinidogion yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar dderbyn deunydd o ddiddordeb gwyddonol, hanesyddol neu artistig cenedlaethol yn lle treth.

Yng Nghymru, gellir crynhoi cyfrifoldebau'r Archifau Gwladol fel a ganlyn:

- Mae'n derbyn ac yn rheoli cofnod cyhoeddus Cymru ar y cyd â Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cymru
- Mae'n pennu ac yn arolygu manau adneuo cymeradwy yng Nghymru yn unol â'r Safon Achredu.⁵
- Mae'n cefnogi'r sector archifau yng Nghymru drwy roi cyngor ac arweiniad arbenigol ar faterion archifol, ac mewn perthynas â bodloni'r gofynion sydd arnynt fel Man Adneuo.

⁴ Penodwyd Comisiwn Brenhinol Llawysgrifau Hanesyddol (neu'r Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol) o dan Warrant Frenhinol yn 1869; daeth yn rhan o'r Archifau Gwladol yn 2003.

⁵ Rheolir y gwaith o weinyddu ceisiadau o Gymru i'r cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

Cofnodion Llywodraeth Cymru ⁶

Mae cofnodion Llywodraeth Cymru yn Gofnodion Cyhoeddus Cymru (fel y'u diffinnir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru) ac, felly, fe'u rheolir ar hyn o bryd yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Nid yw cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Chomisiwn Cynulliad Cymru wedi'u dynodi'n Gofnodion Cyhoeddus Cymru o dan y ddeddfwriaeth hon ac maent yn gyfrifol am eu cofnodion eu hunain.

Trosglwyddo Cofnodion i'r Archifau Gwladol

O dan y trefniadau presennol, mae'r Archifau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithio gyda'i gilydd i ddewis cofnodion o werth hanesyddol i'w cadw'n barhaol, a sicrhau y cânt eu trosglwyddo ac y byddant yn parhau i fod yn hygyrch.

Mae Swyddog Cofnodion Adrannol Llywodraeth Cymru yn arfarnu ac yn dewis cofnodion i'w cadw'n barhaol yn unol â'r Polisi Dewis Gweithredol perthnasol. Caiff cofnodion eu hadolygu i weld a ydynt yn rhai sensitif, eu catalogio a'u trosglwyddo i'r Archifau Gwladol eu cadw yn yr hirdymor a darparu mynediad iddynt.

Hyd yma, prin yw'r cofnodion sydd wedi'u trosglwyddo i'r Archifau Gwladol, tua 1% o'r cofnodion a grëwyd ym mhob blwyddyn rhwng 1965 a 1992. O dan y Rheol 20 Mlynedd bwriedir i gofnodion sy'n perthyn i'r cyfnod ers datganoli (o 1999 ymlaen) gael eu trosglwyddo o 2021 ymlaen; rhagwelir y gallai tua 2% o'r cofnodion hyn gael eu dewis i'w cadw'n barhaol.

Yn ymarferol, mae Cofnodion Cyhoeddus digidol Cymru sy'n perthyn i'r cyfnod ers datganoli eisoes yn cael eu trosglwyddo i'r Archifau Gwladol.

Er bod cofnodion Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn Gofnodion Cyhoeddus Cymru o dan delerau Deddf

Llywodraeth Cymru, nhw sy'n gyfrifol am eu trefniadau eu hunain ar gyfer trosglwyddo cofnodion i'r Archifau Gwladol.

Cymorth gan Yr Archifau Gwladol

Mae Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cymru yn ffurfioli'r trefniadau ar gyfer rheoli cofnodion cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n nodi fframwaith gweithio y bwriedir iddo hyrwyddo cydweithredu a chyfathrebu adeiladol. Nid yw'r Concordat yn gcontract ffurfiol ac nid yw'n gyfreithiol gyfrwymol.

Hyd yma, mae'r Archifau Gwladol wedi darparu gwasanaeth am ddim i Lywodraeth Cymru sy'n cwmpasu'r meysydd cymorth canlynol:

- cyngor ac arweiniad er mwyn hyrwyddo arfer gorau ym maes rheoli gwybodaeth a chofnodion; datblygu polisïau, prosesau, adnoddau a thechnoleg sy'n ystyried gofynion deddfwriaethol a gofynion busnes
- cymorth a hyfforddiant er mwyn gwella safonau rheoli gwybodaeth; gan gynnwys Asesiadau Rheoli Gwybodaeth
- canllawiau / hyfforddiant ar ddewis, arfarnu a throsglwyddo cofnodion ac adolygiadau sensitifrwydd; galluogi cydymffurfiaeth â'r Rheol 20 Mlynedd
- canllawiau a chymorth o ran risg gwybodaeth; seiberfygythiadau, diogelwch gwybodaeth, allforio a throsglwyddo data electronig a newidiadau i Beirianwaith y Llywodraeth
- cymorth, canllawiau a hyfforddiant ar gyfer mynd i'r afael â heriau parhad a chadwraeth ddigidol; sicrhau mynediad parhaus at wybodaeth ddigidol yn y dyfodol.

⁶Gwybodaeth ychwanegol a ddarperir gan Wasanaethau Gwybodaeth ac Archifau Llywodraeth Cymru

Y Sector Archifau yng Nghymru

Mae'r sector archifau ffurfiol yng Nghymru yn casglu ac yn cadw llawer o gofnodion dogfennol cenedlaethol Cymru ac yn darparu mynediad atynt. Mae'n cynnwys 21 o sefydliadau, sef:

13 o Wasanaethau Awdurdod Lleol

De-ddwyrain Cymru: Archifau Morgannwg; Archifau Gwent; Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg.

Gogledd Cymru: Archifau Ynys Môn; Gwasanaeth Archifau Conwy; Archifau Sir Ddinbych; Archifdy Sir y Fflint; Archifau Gwynedd (Archifdy Caernarfon / Archifdy Meirionnydd); Archifau ac Astudiaethau Lleol Wrecsam.

Canolbarth a Gorllewin Cymru: Gwasanaeth Archifau Sir Gaerfyrddin; Archifdy Ceredigion; Archifdy Sir Benfro; Archifdy Powys.

5 Gwasanaeth Addysg Uwch

Archifau Prifysgol Aberystwyth; Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Bangor; Prifysgol Caerdydd, Casgliadau Arbennig ac Archifau; Prifysgol Abertawe, Archifau Richard Burton; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llyfrgell ac Archifau Roderic Bowen

3 Sefydliad Cenedlaethol

Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; Amgueddfa Cymru

O'r rhain, cydnabyddir 16 gan Yr Archifau Gwladol fel mannau adnewo ar gyfer cofnodion cyhoeddus a grëwyd yn lleol.

Gyda'i gilydd, maent yn cadw cofnod dogfennol hanesyddol Cymru, o'r 11eg ganrif i'r presennol. Mae'r cofnodion hyn mewn amrywiaeth o fformatau, o ddogfennau memrwn a phapur, mapiau a ffotograffau, i ffeiliau digidol heddiw.

Maent yn cofnodi'r sefydliadau a'r strwythurau allweddol sydd wedi llywio bywyd yng Nghymru:

- Llywodraeth leol
- Yr eglwys sefydledig a chyrff crefyddol eraill
- Busnes a menter ddiwydiannol
- Ystadau
- Elusennau
- Cyfiawnder lleol
- Ysbytai

Mae casgliadau hefyd yn cynnwys cofnodion unigolion – gwleidyddion, dynion busnes, peirianwyr, awduron, artistiaid – pobl enwog a chyffredin y mae eu profiadau yn cyfrannu at naratif hanesyddol cenedlaethol Cymru.

Er bod llawer o'r deunydd hwn o ddiddordeb lleol neu gymunedol, mae casgliadau allweddol o bwys cenedlaethol a rhyngwladol ehangach ar gyfer ymchwil. Er enghraifft, mae Pwyllgor Cof y Byd UNESCO yn y DU wedi cydnabod pedair eitem o dreftadaeth ddogfennol Cymru fel deunydd sydd o bwys eithriadol.

Mae gan yr adnodd hanesyddol unigryw hwn gyfraniad gwirioneddol i'w wneud at lesiant cenedlaethol Cymru (fel y nodir dros y dudalen). Mae gan wasanaethau rôl weithredol i'w chwarae hefyd o ran cofnodi'r presennol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ar yr un pryd, mae gwasanaethau archifau ymhlith cyrff diwylliannol a threftadaeth lleiaf hysbys Cymru, gyda nifer yr ymweliadau ar y safle yn gostwng wrth i ddefnyddwyr chwilio am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar-lein.

Yn bwysicach na hynny, am fod asgwrn cefn y ddarpariaeth yn cael ei ddarparu gan lywodraeth leol, mae pryderon ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y sector, gyda heriau sylweddol o ran adnoddau, sgiliau a seilwaith.

Archifau a Llesiant

Gellir cysylltu lle archifau Cymru ym mywyd y genedl yn glir â'r saith Nod Llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015):

Cymru lewyrchus

- Rhoi cyfleoedd dysgu i bobl o bob oedran; gellir defnyddio archifau i gefnogi'r cwricwlwm ac ategu ymchwil academiaidd o bwys rhyngwladol ac fel adnodd gwerthfawr ar gyfer dysgu gydol oes
- Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a chyfleoedd interneiaeth sy'n gwella sgiliau a chyflogadwyedd
- Cynnal adnoddau archifol y gellir eu defnyddio i gefnogi ymchwil academiaidd, gweithgarwch creu gwybodaeth, arloesi ar gyfer busnes a thwristiaeth treftadaeth

Cymru gydnerth

- Cadw adnoddau y gall ymchwilwyr eu defnyddio i nodi newidiadau yn yr amgylchedd naturiol a'r hinsawdd dros amser a darparu mynediad i'r adnoddau hynny
- Cefnogi camau gweithredu amgylcheddol drwy ddarparu mynediad at gofnodion perthnasol o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Cymru iachach

- Darparu adnoddau hanesyddol ar gyfer mentrau megis therapi hel atgofion, cefnogi pobl â dementia
- Cefnogi lles meddyliol; defnyddio cofnodion i feithrin dealltwriaeth o hunaniaeth bersonol a chymunedol
- Galluogi ymgysylltu cymdeithasol cadarnhaol, lleihau unigrwydd; mae llawer o ddefnyddwyr a gwirfoddolwyr archifau yn bobl hŷn y mae'r archif yn darparu cyswllt cymdeithasol gwerthfawr a diddordeb gweithredol ar eu cyfer
- Darparu mannau diogel lle mae pobl yn teimlo'n gartrefol a'u bod yn cael eu cefnogi

Cymru sy'n fwy cyfartal

- Drwy fod ar agor i bawb, gan gynnig mynediad cymdeithasol gynhwysol am ddim at gofnodion cymunedau lleol
- Casglu cofnodion sy'n cynrychioli pob elfen o gymdeithas a diogelu'r cofnod hwnnw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Cymru o Gymunedau Cydlynus

- Helpu cymunedau i ddeall eu hanes cynnar a sut y gwnaethant ddatblygu drwy gasglu cofnodion cymunedau lleol a darparu mynediad atynt
- Darparu amgylcheddau tawel a diogel lle y gall aelodau o'r gymuned ddod at ei gilydd

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Sicrhau a hyrwyddo mynediad at y cofnod o'n hanes a'n diwylliant cenedlaethol, gan gynnwys ein harchifau Gymraeg
- Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i ymgysylltu â diwylliant a hanes Cymru; o ymchwil sy'n defnyddio dogfennau gwreiddiol, i wirfoddoli, gwaith addysgol a gweithgarwch allgymorth
- Hyrwyddo a diogelu diwylliant Cymru a'r Gymraeg drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol a threftadaeth eraill.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

- Cynnal y cofnod sy'n dwyn ein sefydliadau a chyrff y llywodraeth i gyfrif
- Ceisio datblygu ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio

Problemau a Chyfleoedd

Mae iechyd y sector archifau yng Nghymru oblygiadau penodol i gynaliadwyedd ein cofnod dogfennol cenedlaethol. Ar hyn o bryd mae'r sector yn disgyn rhwng dwy stôl: mae technolegau digidol, cynulleidfaoedd newydd a phartneriaethau yn cynnig cryn botensial i sicrhau bod cofnodion yn fwy hygyrch a pherthnasol, tra bod cyfyngiadau cyllido yn bygwth lleihau gwasanaethau i'w lefel fwyaf sylfaenol.

Cryfderau - Casgliadau o bwys lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n cwmpasu Cymru gyfan - Staff medrus a gwybodus - Rhwydwaith o wasanaethau ledled Cymru sy'n cynnig mynediad lleol; llawer ohonynt yn gweithredu o safleoedd newydd neu safleoedd wedi'u hadnewyddu - Mae'n cynnig darpariaeth addysg ac ymchwil gref - Ansawdd y gwasanaethau a ddarperir (cydnabyddir bod 13 o wasanaethau yng Nghymru yn cyrraedd Safon Achredu Gwasanaethau Archifau, mae eraill yn gweithio tuag at Achrediad)	Gwendidau - Heriau sy'n gysylltiedig â chasglu cofnod cynrychioliadol o Gymru fodern (e.e. diffyg cysylltiadau â chymunedau anodd eu cyrraedd; capasiti digidol cyfyngedig) - Proffil cyhoeddus is na chyrff diwylliannol a threftadaeth eraill; lefel gyfatebol is o ymweliadau / defnydd ffisegol - Diffyg ymgysylltu â chymunedau amrywiol (incwm isel, mewnfudwyr a grwpiau lleiafrifoedd ethnig) sydd i'w briodoli i broblemau o ran capasiti a sgiliau - Llety gwael gyda chapasiti storio cyfyngedig mewn rhai gwasanaethau; yr angen am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol
Cyfleoedd - Gwaith partneriaeth i ymestyn capasiti, galluogi casglu a datblygu cynulleidfaoedd a chyflawni yn erbyn gofynion cadwraeth ddigidol - Datblygu gwasanaethau digidol newydd; meithrin ymwybyddiaeth a chynyddu'r defnydd o wasanaethau, cyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein newydd - Potensial i gyfrannu at agendâu cymdeithasol: iechyd meddwl; cydlyniant cymdeithasol; datblygu sgiliau - Potensial i gyfrannu at agendâu atebolrwydd / cydymffurfiaeth - Cyfleoedd i gael cyllid allanol ar gyfer prosiectau datblygu (e.e. Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol)	Bygythiadau - Cyfyngiadau cyllido, sy'n lleihau capasiti ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau - Cyffredinrwydd a natur gyfnewidiol y cofnod digidol; mae'r nifer gynyddol o dechnolegau newydd mwyfwy cymhleth yn peri her sylweddol o ran casglu / cadw cofnodion - Lefelau staffio is (oherwydd cyfyngiadau ariannol) sy'n cyfyngu ar gapasiti – yn enwedig ar gyfer swyddogaethau allgymorth, addysg a chadwraeth - Sgiliau a chapasiti cyfyngedig ym maes cadwraeth ddigidol ym mhob rhan o'r sector - Gostyngiad yn nifer yr ymweliadau ar y safle (wrth i ddefnyddwyr gael mwy a mwy o wybodaeth ar-lein) - Diffyg cyllid hirdymor, capasiti staff ac arbenigedd i ddatblygu cynulleidfaoedd targed, datblygu gwasanaethau digidol a gweithio mewn partneriaeth - Brexit; potensial i effeithio'n weithredol ar sefydliadau cenedlaethol yn benodol (colli arian, partneriaethau a staff yr UE)

4. Archif Genedlaethol i Gymru

“Mae mynediad i archifau yn cyfoethogi ein gwybodaeth am gymdeithas ddynol, yn hyrwyddo democratiaeth, amddiffyn hawliau dinasyddion ac yn gwella ansawdd bywyd.”

UNESCO, Datganiad Cyffredinol ar Archifau, 2010

Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Mae adran 147 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi darpariaethau ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb am Gofnodion Cyhoeddus Cymru i Weinidogion Cymru (neu aelod o staff Llywodraeth Cymru). Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cofnodion cyhoeddus sy'n ddigon tebyg i'r un a wnaed gan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 1958.

Byddai gorchymyn o dan yr adran hon yn gosod ar “... persons responsible for Welsh public records duties relating to the selection of such records for permanent preservation, the safe-keeping of such records and their transfer to a place specified in, or appointed under, the order.”⁷

Byddai gorchymyn o'r fath yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ymynghori â Gweinidogion Cymru. Byddai angen ymgynghori â Gweinidogion Cabinet y DU ac adrannau'r llywodraeth hefyd ynghylch unrhyw effaith ar eu swyddogaethau.

Cyn y gellid gwneud unrhyw orchymyn, byddai angen i'r Archifau Gwladol geisio sicrwydd hefyd fod y trefniadau arfaethedig “... i ddethol cofnodion cyhoeddus Cymreig i'w storio am y tymor hir, yn unol â'r safonau sy'n berthnasol i ystorfeydd archifau'r DU.”⁸

Deddfwriaeth Archifau

Dim ond trosglwyddo'r cyfrifoldeb am Gofnodion Cyhoeddus Cymru a wnâi gorchymyn o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Wedyn, byddai angen i'r Cynulliad gymeradwyo ei ddeddfwriaeth cofnodion cyhoeddus ei hun⁹ er mwyn sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru neu Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus i Gymru.

Mater i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad fyddai penderfynu ar gwmpas y ddeddfwriaeth honno, ond byddai angen iddi ystyried y canlynol o leiaf:

- y diffiniad o Gofnodion Cyhoeddus Cymru a ph'un a oes angen ei ymestyn i gynnwys meysydd eraill o fywyd cyhoeddus;

- cwmpas swyddogaethau sy'n ymwneud â chynghori a goruchwyllo cyrff cofnodion cyhoeddus mewn perthynas â rheoli eu cofnodion;
- cwmpas swyddogaethau sy'n ymwneud â chasglu a diogelu cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus sydd o werth cenedlaethol;
- cwmpas swyddogaethau sy'n ymwneud ag arwain a goruchwyllo'r sector archifau yng Nghymru;
- y sefydliad(au) a fyddai'n gyfrifol am gadw Cofnodion Cyhoeddus Cymru a sicrhau eu bod yn hygyrch a chyflawni swyddogaethau cysylltiedig.

⁷ Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a.147(1)(b).

⁸ Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010, (4).

⁹ Gweler Atodiad 2 am enghreifftiau o gwmpas deddfwriaeth archifau bresennol gan gymaryddion.

Safonau a Disgwyliadau

Fel Archif Genedlaethol Cymru byddai'n ofynnol i unrhyw gorff newydd gyrraedd safonau perthnasol ar gyfer arfer proffesiynol ac ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan ddangos darpariaeth gyfatebol i wledydd eraill y DU.

Felly, byddai'r sefydliad newydd yn gallu bodloni gofynion Safon Achredu Gwasanaethau Archifau'r DU gyfan¹⁰ yn ei thri maes allweddol fel a ganlyn.

<i>Iechyd Sefydliadol</i> Cyd-destun gweithredol gyda digon o adnoddau a gwaith cynllunio i gynnal y sefydliad yn yr hirdymor.	• Adeiladau a storfeydd ar gyfer archifau a gwasanaethau archifau analog a digidol, lle mae'r trefniadau yn ddigonol i gadw'r casgliadau yn ffisegol ddiogel a hygyrch. • Digon o gyllid er mwyn i'r gwasanaeth allu cyflawni ei genhadaeth a'i flaengynlluniau datganedig. • Lefelau digonol o staff â phrofiad priodol i gyflawni cyfrifoldebau a chynlluniau'r gwasanaeth.
<i>Casgliadau</i> Seilwaith, polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau y caiff casgliadau eu rheoli ac y gofelir amdanynt yn effeithiol.	• Mae ganddynt yr adnoddau i gefnogi gweithgarwch datblygu casgliadau; sy'n sicrhau cofnod cenedlaethol cynrychioliadol • Mae ganddynt yr adnoddau i gefnogi gweithgarwch catalogio ac adnoddau canfod ar-lein; sy'n sicrhau y gall pobl nodi'r cofnodion sydd eu hangen arnynt • Mae ganddynt yr adnoddau i gefnogi gweithgarwch gofalu am gasgliadau; sy'n sicrhau y bydd y casgliadau (analog a digidol) yn parhau'n hygyrch i genedlaethau'r dyfodol
<i>Rhanddeiliaid a'u Profiadau</i> Seilwaith, polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau mynediad effeithiol at gasgliadau, ac ymgysylltu â'r gymuned a'r rhanddeiliaid a wasanaethir.	• Mae ganddynt yr adnoddau i gefnogi gwasanaethau mynediad ar y safle a chyflwyno rhaglenni addysg ac allgymorth perthnasol • Mae ganddynt yr adnoddau i ddarparu gwasanaethau mynediad ar-lein priodol, gan gyrraedd cynulleidfaoedd rhithwir

¹⁰ Cyflwynwyd y cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau yn 2013 gan bartneriaeth o gyrff a sefydliadau archifau cenedlaethol ym mhob rhan o'r DU, gan gynnwys Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru. Mae'n diffinio arfer da a safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau archifau'r DU, fe'i rheolir yn ganolog gan Yr Archifau Gwladol, ac fe'i gweinyddir yng Nghymru gan MALD. O dan y trefniadau presennol, disgwylir i bob man adneuo ar gyfer cofnodion cyhoeddus ennill a chynnal statws Achrededig. Mae'r Archifau Gwladol (y DU, Cymru a Lloegr), Cofnodion Cenedlaethol yr Alban a Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon oll yn wasanaethau Achrededig.

Dylai'r sefydliad hefyd allu darparu (o leiaf) wasanaeth cyfatebol i'r hyn a ddarperir o dan y trefniadau presennol. Pwysleisiodd gweithdai gyda rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanddeiliaid yn y sector werth y gwasanaethau canlynol a ddarperir gan Yr Archifau Gwladol.

Llywodraeth Cymru a Chyrff Cofnodion Cyhoeddus eraill	• Cyngor ac arweiniad ynglŷn ag arfer gorau ym maes rheoli gwybodaeth a chofnodion a materion yn ymwneud â chofnodion cyhoeddus; helpu i sicrhau y caiff y cofnod cyhoeddus ei weinyddu a'i drosglwyddo i'w gadw mewn archif yn ddiogel • Cyfleusterau storio a mynediad ffisegol ar gyfer cofnod cyhoeddus Cymru, gan gynnwys seilwaith digidol llawn weithredol sy'n gallu cadw cofnodion digidol yn unol â safonau a dderbynnir • Cyfundrefn rheoli casgliadau gynhwysfawr er mwyn sicrhau y bydd cofnodion a drosglwyddwyd yn goroesi ac y byddant yn ddefnyddiadwy yn yr hirdymor • Cyfleusterau ar gyfer mynediad cyhoeddus ar y safle (drwy ystafell chwilio gyhoeddus), drwy wasanaethau ar-lein (gan gynnwys catalog ar-lein) a thrwy raglenni addysg ac allgymorth perthnasol.
Mannau Adneuo ar gyfer Cofnodion Cyhoeddus	• Cyfundrefn arolygu sy'n helpu i gynnal safonau yn enwedig ar gyfer adeiladau gwasanaethau; rhoi cyngor awdurdodol ar safonau gofynnol i riant-gyrff • Cyngor sydd ar gael am ddim ar faterion sy'n ymwneud â chofnodion cyhoeddus • Cyllid beichiau newydd ar gyfer rhoi newidiadau i'r system cofnodion cyhoeddus ar waith o dan y Rheol 20 Mlynedd
Y Sector Archifau	• Cyngor ac arweiniad proffesiynol (gwefan, dogfennaeth, gwasanaethau cynghori) ar reoli archifau a chasgliadau • Darparu hyfforddiant o ansawdd uchel mewn meysydd perthnasol • Hyrwyddo rôl archifau i bartneriaid a'r cyhoedd; creu proffil i'r sector ac archifau yn gyffredinol • Partner a chefnogwr awdurdodol i'r cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau • Cydnabyddir ei gwaith a'i hallbynnau ac mae ganddynt hygyrdd yn rhyngwladol; cefnogi'r sector yn broffesiynol • Rôl ymchwil a chyllido ar gyfer datblygu llwyfannau ac adnoddau sy'n cefnogi'r sector archifau ehangach (e.e. datblygiadau ym maes cadwraeth ddigidol) • Rôl gynghori ar gyfer archifau preifat; helpu i sicrhau bod yr elfennau hynny o'r dreftadaeth ddogfennol genedlaethol sy'n eiddo preifat yn goroesi

Yr Her Ddigidol

Mae tuedd i feddwl am sefydlu archif genedlaethol yn nhermau'r adeilad y mae'n ei feddiannu a'r cofnodion ffisegol o dan ei gofal. Hefyd, deëllir y gofynion ar gyfer sicrhau, cynnal a darparu mynediad i'r cofnod analog hwn yn dda ac mae'n gymharol syml eu rheoli.

Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o gofnodion modern yn cael eu creu'n ddigidol.¹¹ Felly, mae'n debygol mai rheoli'r cofnod cyhoeddus digidol fydd swyddogaeth allweddol unrhyw Archif Genedlaethol newydd i Gymru neu ei phrif swyddogaeth hyd yn oed. Fodd bynnag, mae'r cofnod digidol, yn ei hanfod, yn agored i niwed, am ei fod yn wynebu amrywiaeth o fygythiadau mewnol ac allanol, sef:

- Darfodiad technolegol cyflym
- Cadwyni cymhleth o gyd-ddibyniaeth (e.e. y ffaith mai dim ond mewn amgylcheddau gweithredu penodol y gall meddalwedd benodol weithio)
- Y ffaith ei bod yn hawdd diwygio gwrthrychau digidol neu eu defnyddio at ddibenion eraill
- Y nifer fawr o gofnodion, sy'n golygu ei bod yn anoddach eu rheoli'n effeithiol
- Y nifer fawr o fformatau sy'n datblygu'n gyson ac yn cynyddu o ran nifer
- Cymhlethdod gwrthrychau digidol, sy'n amrywio o ddogfennau testunol syml i gronfeydd data cymhleth.
- Y nifer fawr o lwyfannau a mannau creu y gall cofnodion ddeillio ohonynt (cyfrifiaduron personol, mewnrwydi, gwefannau, cyfryngau cymdeithasol, ac ati)
- Problemau diogelwch sy'n golygu y gall cofnodion gael eu newid heb awdurdod neu eu difrodi
- Gall cofnodion gael eu dinistrio'n ddireolaeth neu eu colli, yn fwriadol neu'n anfwriadol

Y risg allweddol i'r cofnod digidol modern yw diffyg rheolaeth briodol; dyma'r ateb allweddol hefyd, sef rheoli'r cofnod yn barhaus o'r adeg y caiff ei greu, nid yn unig er mwyn sicrhau y bydd yn goroesi, ond hefyd ei fod yn ddilys, yn ddibynadwy, yn gyflawn ac yn ddefnyddiol.

Cadw'r Cofnod Digidol

Mae nifer o gamau allweddol yn y broses o reoli cofnodion digidol, y mae pob un ohonynt yn gofyn am fewnbwn, cymorth a gwaith monitro sylweddol gan staff arbenigol sy'n cydweithio'n agos â'r sefydliad adneuo:

- *Arfarnu, dewis, adolygiad sensitifrwydd*
Gweithio'n uniongyrchol gydag adnewyr a chyrff cofnodion cyhoeddus, rhoi cymorth agos ar gyfer prosesau megis yr adolygiad sensitifrwydd, golygu ac asesu a ddylid cau cofnodion.
- *Trosglwyddo*
Gweithio'n uniongyrchol gydag adnewyr a chyrff cofnodion cyhoeddus, rhoi cymorth agos i ddatblygu prosesau ac adnoddau er mwyn galluogi trosglwyddiadau digidol.
- *Storio*
Darparu seilwaith digidol, wedi'i ardystio fel Storfa Ddigidol yr Ymddiriedir ynddi, sy'n cyrraedd safonau rhyngwladol gofynnol ar gyfer cadwraeth ddigidol ddibynadwy, hirdymor.
- *Mynediad, rhannu a chyhoeddi*
Cynllunio ar gyfer dull data agored o sicrhau bod y cofnodion ar gael i'r cyhoedd; darparu rhyngwyneb 'canfod' dwyieithog er mwyn galluogi mynediad, ond gan ymgorffori mesurau diogelwch ar gyfer deunydd sensitif a chyfyngedig.

Mae'n rhaid i hyn oll fod o ansawdd sy'n sicrhau bod y cofnod cyhoeddus yn ddiogel, yn ddilys, yn gyflawn ac yn ddefnyddiadwy.

¹¹ Ers 2010, mae'r mwyafrif o gofnodion Llywodraeth Cymru yn rhai digidol, gyda dim ond elfen fach ar ffurf bapur.

Yr Archif Genedlaethol Ddigidol

Mae cadw'r cofnod digidol cenedlaethol a darparu mynediad ato yn waith cymhleth a heriol sy'n defnyddio llawer o adnoddau.

Cydnabyddir Yr Archifau Gwladol fel arweinydd yn y maes hwn ac mae wedi sefydlu archif ddigidol genhedlaeth gyntaf lawn weithredol â seilwaith sy'n gallu cael gafael ar lawer iawn o gofnodion a metadata disgrifiadol cysylltiedig yn ddiogel a'u cadw.

Mae'r Archifau Gwladol wedi buddsoddi'n sylweddol mewn systemau ac arbenigedd ac mae hwn yn faes sy'n dal i ddatblygu, lle y ceir heriau sy'n gysylltiedig â newid technolegol, y nifer fawr o gofnodion sydd a recriwtio a chadw'r arbenigedd digidol angenrheidiol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan yr un sefydliad yng Nghymru y wybodaeth na'r gallu i reoli cofnodion digidol ar y raddfa hon.

Ceir darparwyr masnachol ym maes cadwraeth ddigidol a allai ddarparu gwasanaethau sy'n bodloni elfennau o'r gofynion yn y maes hwn, yn arbennig storio. Byddai angen gwerthuso'r atebion y maent yn eu cynnig yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac nad ydynt yn amlygu Cofnod Cyhoeddus Cymru i risg ddiangen.

Mae'n rhaid i unrhyw ystyriaeth a roddir i sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru feddwl o ddifrif am greu a chynnal system cadwraeth ddigidol gadarn, gan y bydd y mwyafrif o'i chasgliadau yn gofnodion digidol anedig.

Mae rôl archif genedlaethol wrth gefnogi'r gymuned archifol ehangach hefyd yn berthnasol yma. Byddai'r sector yng Nghymru yn dibynnu ar Archif Genedlaethol i Gymru fel arweinydd yn y maes, gyda'r potensial i gefnogi'r gymuned cadwraeth ddigidol drwy broses cyfnewid gwybodaeth agored, neu hyd yn oed drwy ddarparu gwasanaethau yn ganolog.

Er mwyn cyflawni ei chylch gwaith, waeth beth fo'i gwmpas, bydd angen i'r archif genedlaethol ddigidol fuddsoddi mewn ymchwil, arbenigedd a thechnoleg:

- Recriwtio staff technegol arbenigol: datblygwyr meddalwedd, dadansoddwyr systemau, arbenigwyr ym maes seiberddiogelwch ac ati.
- Cefnogi ymchwil arloesol ym maes cadwraeth ddigidol a thechnolegau newydd, e.e. 'blockchain'.
- Symud y tu hwnt i storio er mwyn diwallu anghenion mynediad drwy efelychu a strategaethau eraill; datblygu ei hadnoddau ei hun
- Dysgu gan sefydliadau rhyngwladol blaenllaw eraill, gan rannu gwybodaeth ac arfer gorau
- Bod yn ystwyth, yn hyblyg ac yn gydnerth o ran ei seilwaith a'i dull gweithredu

Mae darpariaeth system annigonol yn peri risg y collir gwybodaeth hollbwysig, y methir â chydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth ac y gwneir niwed difrifol i enw da Cymru.

Risg

Bydd risgiau yn gysylltiedig â sefydlu a gweithredu archif genedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â'r cofnod digidol. Gallai darpariaeth annigonol arwain at golli neu ddifrodi cofnodion, anallu i gydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth a niwed i enw da'r sefydliad.

Byddai angen rhoi ystyriaeth fanwl bellach i'r risgiau hyn wrth i'r dull o roi unrhyw fodel ar waith gael ei ystyried yn fanylach. Yma rhoddir cofrestr risg amlinellol, sydd wedi'i llunio ar sail cydymffurfiaeth â'r Safon Achredu Gwasanaethau Archifau.

Risg	Effaith	Tebygolrwydd	Lliniaru
<i>Iechyd Sefydliadol:</i> Adeiladau a storfeydd annigonol ar gyfer cofnodion analog	UCHEL – mae angen amodau penodol ar gofnodion analog er mwyn iddynt oroesi yn yr hirdymor; gallai darpariaeth annigonol arwain at golli neu ddifrodi cofnodion cyhoeddus.	ISEL – deëllir y gofynion ar gyfer adeiladau a storfeydd archifol yn dda a gellir eu rhagnodi yn unol â safonau rhyngwladol.	Mae manyleb adeiladau yn unol â safonau rhyngwladol; darparu adnoddau er mwyn sicrhau bod adeiladau o ansawdd priodol yn unol â'r fanyleb hon.
<i>Iechyd Sefydliadol:</i> Seilwaith digidol annigonol ar gyfer trosglwyddo a chadw'r cofnod digidol	UCHEL – mae angen seilwaith, systemau ac arbenigedd ar gofnodion digidol er mwyn sicrhau y byddant yn goroesi ac yn parhau'n hygyrch yn yr hirdymor; bydd darpariaeth annigonol yn peri risg y caiff cofnodion cyhoeddus digidol eu colli.	UCHEL – mae cadw a throsglwyddo cofnodion digidol yn broses gymhleth a heriol sy'n defnyddio llawer o adnoddau.	Creu a chynnal systemau cadarn ar gyfer trosglwyddo a chadw cofnodion digidol, gyda seilwaith digonol a staff medrus.
<i>Iechyd Sefydliadol:</i> Cyllid parhaus annigonol	UCHEL – mae'r cofnod cyhoeddus yn cael ei beryglu; gallai cofnodion gael eu colli neu eu difrodi, neu efallai na fyddant yn hygyrch yn y tymor hwy; mae'n bosibl y methir â chydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth, a fydd yn niweidio enw da'r sefydliad; collir atebolrwydd ac adnodd diwylliannol cenedlaethol.	UCHEL – efallai na chaiff gwaith cadw cofnodion effeithiol ei ystyried yn flaenoriaeth ar gyfer darparu adnoddau mewn cyfnod o gyfyngiadau ariannol; diffyg dealltwriaeth o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni swyddogaethau archif genedlaethol yn effeithiol.	Nodi cyllideb ac adnoddau digonol a'u dyrannu er mwyn sicrhau y cyflawnir swyddogaethau yn effeithiol.
<i>Iechyd Sefydliadol:</i> Anallu i ddenu digon o sgiliau a staff i gyflawni swyddogaethau arbenigol, e.e. helpu i drosglwyddo / cadw cofnodion digidol	UCHEL – ni all helpu i ymdrin â chymhlethdodau presennol a newydd sy'n gysylltiedig â rheoli Cofnod Cyhoeddus Cymru.	UCHEL – mae recriwtio a chadw staff arbenigol, yn enwedig yn y maes digidol, yn heriol yn fyd-eang; ni all llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus gynnig cyflogau ar gyfradd y farchnad; gall fod lleoliadau mwy deniadol sy'n cystadlu ag ef.	Buddsoddi mewn recriwtio ar lefel briodol; sicrhau bod digon o adnoddau yn cael eu darparu ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu a seilwaith er mwyn denu a chadw staff allweddol; strategaethau i ddatblygu ei arbenigwyr ei hun drwy raglenni hyfforddiant ac interniaeth mewnol.

Risg	Effaith	Tebygolrwydd	Lliniaru
<i>Casgliadau:</i> Nid yw deddfwriaeth gyfyngol yn rhoi digon o bwerau i nodi a chadw cofnod cenedlaethol cwbl gynrychioliadol.	CANOLIG – nid fydd cofnodion allweddol yn goroesi, sy'n tanseilio atebolrwydd, a chofnod tystiolaethol a diwylliannol Cymru.	CANOLIG - mae angen ystyried y diffiniadau o Gofnodion Cyhoeddus Cymru a pha sefydliadau yn y sector cyhoeddus a ddylai gael eu cwmpasu.	Llunio deddfwriaeth er mwyn nodi a chwmpasu'r sefydliadau sy'n cyfrannu at fywyd cenedlaethol Cymru; sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cynnwys pwerau i oruchwylio'r gwaith o reoli cofnodion a'u trosglwyddo i'w cadw mewn archifau.
<i>Casgliadau:</i> Dim digon o adnoddau i reoli graddfa a chymhlethdod prosesau arfarnu, dewis ac adolygu sensitifrwydd ar gyfer trosglwyddo cofnodion digidol.	UCHEL – ni all asesu'n gywir a oes angen i gofnod fod ar agor neu gael ei gau; gallai dorri deddfwriaeth diogelu data neu fethu â bodloni gofynion o ran rhyddid gwybodaeth; gallai enw da'r sefydliad gael ei niweidio drwy ryddhau data sensitif yn amhriodol.	UCHEL – mae'r nifer fawr o gofnodion digidol a'u cymhlethdod yn golygu bod prosesau ar gyfer adolygu a dewis yn arbennig o heriol; mae'r ffaith ei bod yn hawdd dosbarthu deunyddiau digidol unwaith y byddant ar gael drwy fynediad agored yn golygu bod rheoli mynediad hefyd yn peri problemau.	Digon o adnoddau er mwyn i nifer y cofnodion a ddelir allu cael ei wirio â llaw; rhoi strategaethau rheoli risg ar waith a datblygu prosesau adolygu. Rhannu gwersi a ddysgwyd ag archifau cenedlaethol eraill sy'n wynebu problemau tebyg.
<i>Casgliadau:</i> Methiant i adolygu ac uwchraddio seilwaith digidol wrth i dechnolegau ddatblygu	UCHEL – daw cofnodion mewn casgliadau yn anhygyrch; ni all y sefydliad sicrhau na chadw cofnodion a gaiff eu llunio gan dechnolegau newydd.	UCHEL – mae nifer gynyddol o dechnolegau digidol yn parhau i ddatblygu'n gyflym.	Adolygir systemau cadwraeth ddigidol ac arfer gorau yn y maes yn rheolaidd; mae ganddo'r adnoddau i uwchraddio systemau cadwraeth ddigidol a'u datblygu'n barhaus er mwyn diwallu anghenion presennol.
<i>Casgliadau:</i> Methiant i gynnal mesurau seiberddiogelwch digonol	UCHEL – gallai defnyddioldeb a dibynadwyedd y cofnod gael eu colli, a fyddai'n cyfyngu ar ei statws fel tystiolaeth ddibynadwy, at ddibenion derbynioldeb cyfreithiol a busnes.	UCHEL – mae newid cofnodion yn fwriadol drwy seiberymosodiadau yn faes sy'n peri pryder cynyddol.	Parhau i roi mesurau diogelwch priodol ar waith; mynediad at wybodaeth, arbenigedd a systemau perthnasol.

Risg	Effaith	Tebygolwydd	Lliniaru
<i>Rhanddeiliaid:</i> Dim digon o adnoddau i feithrin cydberthnasau cynhyrchol â llunwyr cofnodion	CANOLIG – ni chaiff cofnodion o werth hirdymor i Gofnod Cyhoeddus Cymru eu nodi na'u cadw.	UCHEL – mae gweithgarwch cadw cofnodion yn aml yn cael ei ystyried yn swyddogaeth cefn swyddfa ac ni roddir digon o flaenoriaeth iddo o fewn sefydliadau; mae angen cyswllt agos er mwyn sicrhau y bodlonir y gofynion o ran cofnodion cyhoeddus.	Digon o adnoddau i feithrin a chynnal cydberthnasau da â llunwyr cofnodion a sicrhau y bodlonir y gofynion o ran cofnodion cyhoeddus.
<i>Rhanddeiliaid:</i> Dim digon o adnoddau i ennyn diddordeb y cyhoedd mewn casgliadau	CANOLIG – nid yw'r cyhoedd yn gefnogol i'r Archif Genedlaethol na darparu adnoddau ar ei chyfer.	CANOLIG – mae'n bosibl mai dim ond i'r llywodraeth, cyrff cysylltiedig ac academyddion y bydd y cyfnod cyhoeddus o ddiddordeb uniongyrchol; mae'n bosibl na fydd y cyhoedd yn gweld unrhyw fantais ehangach uniongyrchol.	Gwaith ymgysylltu ac allgymorth, gan ddefnyddio'r archif genedlaethol fel cyfle i esbonio diben y llywodraeth a dangos atebolrwydd.

5. Modelau Posibl: Arfarnu Opsiynau

"[Mae rheoli archifau] yn cael ei werthfawrogi a'i gyflawni'n gymwys gan bob corff, preifat neu gyhoeddus, sy'n creu a defnyddio archifau yng nghwrs eu busnes."

UNESCO, Datganiad Cyffredinol ar Archifau, 2010

Meini Prawf Arfarnu

Mae'r bennod hon o'r adroddiad yn adolygu'r modelau posibl ar gyfer Archif Genedlaethol i Gymru (a nodwyd ym mhennod 2), yng ngoleuni'r ymchwil a wnaed.

Rhoddir dadansoddiad lefel uchel o gryfderau a gwendidau'r modelau unigol yn seiliedig ar y meini prawf allweddol canlynol.

Dymunoldeb (y graddau y mae pob opsiwn yn cyflawni amcanion a blaenoriaethau strategol rhanddeiliaid)

Sicrhau Cofnod Cyhoeddus Cymru

Y ffordd y mae pob model yn helpu i gasglu a chadw'r cofnod cyhoeddus; cwmpas y swyddogaethau sy'n deillio o hynny

- Mathau o gofnodion cyhoeddus a gesglir: yr hyn a gwmpesir / nas cwmpesir gan bob model?
- Yr adnoddau i gasglu cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus: sut y gallai pob model ddiogelu cofnodion o ddiddordeb cenedlaethol nad ydynt yn rhai cyhoeddus?
- Diogelwch y cofnod cyhoeddus: pa mor effeithiol y gallai pob model sicrhau y caiff cofnod cyhoeddus Cymru ei ddiogelu a'i gadw yn yr hirdymor?

Cael Mynediad at Gofnod Cyhoeddus Cymru

Y ffordd y mae pob model yn helpu i sicrhau bod y cofnod cyhoeddus yn hygyrch; cwmpas y swyddogaethau sy'n deillio o hynny

- Gwerth / hygyrchedd i ymchwilwyr: pa mor effeithiol y gallai pob model gefnogi cynulleidfaoedd ymchwil?
- Gwerth / hygyrchedd i'r cyhoedd: pa mor effeithiol y gallai pob model gefnogi a hyrwyddo mynediad i'r cyhoedd?
- Gwerth / hygyrchedd i lunwyr cofnodion: pa mor effeithiol y gallai pob model helpu i ddiwallu anghenion llunwyr cofnodion o ran mynediad?

Y Budd Ehangach

Y gwerth ychwanegol a sicrhau gan bob model; y budd sy'n deillio o hynny

- Y budd i dreftadaeth ddogfennol ehangach Cymru: pa mor effeithiol y gallai pob model gefnogi'r sector archifau ehangach yng Nghymru?
- Y budd i Gymru fel cenedl: sut y gallai pob model gefnogi a hyrwyddo buddiannau cenedlaethol Cymru?

Hyfywedd (y graddau y mae pob model yn ariannol hyfyw a chynaliadwy)

<i>Creu'r Seilwaith</i> Y gofynion / ystyriaethau ar gyfer pob model wrth greu'r seilwaith angenrheidiol; pa mor hawdd yw cyflawni'r model o ganlyniad i hyn	• Yr adnoddau i sefydlu'r seilwaith: beth sydd ei angen o dan bob model o ran costau, gwybodaeth, sgiliau a phartneriaethau? • Buddsoddiad cyfalaf: beth sydd ei angen i ddarparu'r seilwaith ffisegol angenrheidiol ar gyfer storio'r cofnod cyhoeddus a darparu mynediad ato? • Systemau cadwraeth ddigidol: beth sydd ei angen i sefydlu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer cadw'r cofnod digidol cyhoeddus a darparu mynediad ato?
<i>Cynnal y Gwasanaeth</i> Y gofynion / ystyriaethau ar gyfer pob model wrth gynnal y seilwaith a'r gwasanaethau angenrheidiol; pa mor hawdd yw cyflawni'r model o ganlyniad i hyn	• Yr adnoddau i weithredu: beth sydd ei angen o dan bob model o ran costau, gwybodaeth, sgiliau a phartneriaethau? • Systemau cadwraeth ddigidol: yr hyn sydd ei angen i gynnal y seilwaith sydd ei angen i gadw'r cofnod digidol cyhoeddus a darparu mynediad ato? • Cyfleusterau a gwasanaethau mynediad: beth sydd ei angen o dan bob model i ddarparu mynediad ar y safle, o bell ac ar-lein?
Dichonoldeb (y graddau y gellir rhoi pob model ar waith)	
<i>Dibyniaethau</i> Dibyniaethau ar gyfer cyflawni pob model; pa mor hawdd yw cyflawni'r model o ganlyniad i hyn	• Newidiadau deddfwriaethol: beth yw'r gofynion ar gyfer deddfwriaeth newydd, neu ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes o dan bob model? • Trosglwyddo'r cyfrifoldeb am warchod cofnodion: beth yw'r gofynion o dan bob model ar gyfer trosglwyddo cofnodion perthnasol a ddelir gan awdurdod arall neu eiddo neu staff yr awdurdod hwnnw o dan y trefniadau presennol?
<i>Logisteg</i> Ystyriaethau ar gyfer trefnu a gweithredu pob un o'r modelau; pa mor hawdd yw cyflawni'r model o ganlyniad i hyn	• Strwythurau gweinyddol: beth sydd ei angen o dan bob model o ran llywodraethu, rolau a chyfrifoldebau? • Yr amserlenni i sefydlu'r model: beth yw'r goblygiadau i bob model o ran amseriad deddfwriaeth a datblygu seilwaith / gwasanaethau?

Nodir arfarniadau llawn ar gyfer pob model sy'n defnyddio'r meini prawf hyn ar y tudalennau canlynol; rhoddir costiadau dangosol sy'n seiliedig ar y tybiaethau a nodir yn Atodiad 3.

Model 1: Ychwanegu at y trefniadau presennol

Byddai'r Archifau Gwladol (The National Archives - TNA) yn parhau i weithredu fel y gwasanaeth archifau gwladol i'r Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr, gyda gwasanaethau ychwanegol, penodedig sy'n canolbwyntio ar Gymru.

	Meini Prawf Asesu	Sail Resymegol / Sylwadau
Dymunoldeb	Sicrhau Cofnod Cyhoeddus Cymru	• Dim ond am gofnodion cyhoeddus Cymru y byddai'n gyfrifol, fel y dynodir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. • Dim cyfle i gynnal adolygiad ehangach o'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus a'r hyn y dylai cofnod cenedlaethol Cymru ei gynnwys. • Dim cyfrifoldebau nac adnoddau i sicrhau cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus er budd y genedl. • Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer sicrhau a diogelu cofnod cyhoeddus Cymru fel y'i diffinnir yn rhai cadarn, yn unol ag arfer sefydledig Yr Archifau Gwladol. • Mae Concordat â Llywodraeth Cymru ar waith, gan gynnwys trefniadau ar gyfer trosglwyddo cofnodion digidol.
	Cael Mynediad at Gofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai cynulleidfaoedd ymchwil a'r cyhoedd yn parhau i gael mynediad ffisegol at gofnod cyhoeddus Cymru yn Yr Archifau Gwladol yn Kew, y tu allan i Gymru. Byddai mynediad digidol yn cyd-fynd â gwasanaethau'r Archifau Gwladol. • Byddai mynediad i lunwyr cofnodion yn unol â pholisi'r Archifau Gwladol; erbyn hyn disgwylir i gyrff trosglwyddo edrych ar y cofnodion ar y safle yn Kew a gwneud copïau digidol gan ddefnyddio eu dyfeisiau eu hunain. • Byddai cofnodion cyhoeddus Cymru yn dal i fod ar wahân i gyd-destun dogfennol ehangach Cymru, ond byddent yn bodoli ochr yn ochr â chofnod y DU y cawsant eu llunio ac y maent yn cael eu rheoli gydag ef. • Gallai gwasanaethau newydd gael eu datblygu er mwyn gwella mynediad gyda ffocws ar Gymru – catalogau, adnoddau canfod, cynnwys addysgol, ac ati – mae potensial hefyd ar gyfer benthyciadau ffisegol i sefydliadau yng Nghymru. Byddai dichonoldeb, effeithiolrwydd a chwmpas yn dibynnu ar natur / cwmpas y gwasanaethau arfaethedig. • Ni fyddai gwasanaethau mynediad yn cydymffurfio'n awtomatig â Safonau'r Gymraeg.

	Y Budd Ehangach	• Byddai cefnogaeth i'r sector archifau ehangach yng Nghymru yn parhau ar sail y gwasanaethau a ddarperir drwy'r Archifau Gwladol ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. • Diffyg eglurder posibl ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag arwain y sector gyda chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng Yr Archifau Gwladol, Llywodraeth Cymru a chyrff yn y sector. • Nid yw graddau na chwmpas y ddarpariaeth o ran gwasanaethau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar Gymru yn glir. • Cymru fyddai'r unig un o wledydd y DU heb ei chorff archifau cenedlaethol penodol ei hun o hyd; mae risg y gallai'r dull hwn o weithredu gael ei ystyried yn weithred symbolaidd.
Hyfywedd	Creu'r Seilwaith	• Nid oes angen unrhyw fuddsoddiad cyfalaf; byddai seilwaith ffisegol a digidol ar gyfer rheoli cofnod cyhoeddus Cymru yn parhau i gael ei ddarparu gan Yr Archifau Gwladol am ddim i Lywodraeth Cymru. • Yr adnoddau sydd eu hangen i ddatblygu gwasanaethau newydd er mwyn gwella mynediad gyda ffocws ar Gymru – e.e. staff ychwanegol ag arbenigedd archifol, gwybodaeth am gyd-destun dogfennol Cymru a sgiliau Cymraeg – gallai'r broses hon fod yn gymhleth, yn hir ac yn gostus. Byddai angen i'r costau gael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru a byddai hyn yn dibynnu ar raddau a chwmpas y gwasanaethau arfaethedig. • Problemau posibl o ran cyfeirio cyllid Llywodraeth Cymru i un o adrannau anweinidogol Llywodraeth y DU (Yr Archifau Gwladol) mewn perthynas â datblygu a darparu gwasanaethau newydd.
	Cynnal y Gwasanaeth	• Byddai costau refeniw cynnal seilwaith a gwasanaethau ar gyfer rheoli cofnod cyhoeddus Cymru yn gyffredinol a darparu mynediad ato yn parhau i gael eu talu gan Yr Archifau Gwladol heb godi tâl ar Lywodraeth Cymru. • Mewnbwn parhaus gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymorth i'r sector archifau ehangach yng Nghymru; yn niwtral o ran costau. • Arian ychwanegol i gynnal a pharhau i ddatblygu gwasanaethau newydd er mwyn gwella mynediad gyda ffocws ar Gymru. Byddai angen i'r costau gael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru a byddai hyn yn dibynnu ar raddau a chwmpas y gwasanaethau arfaethedig. • Problemau posibl o ran cyfeirio cyllid Llywodraeth Cymru i un o adrannau anweinidogol Llywodraeth y DU (Yr Archifau Gwladol) mewn perthynas â chynnal a datblygu gwasanaethau newydd.

Dichonoldeb	Dibyniaethau	- Nid oes angen unrhyw newidiadau deddfwriaethol; byddai'r trefniadau yn parhau'n weithredol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958. - Dim gofynion o ran trosglwyddo'r cyfrifoldeb am gofnodion, eiddo neu staff.
	Logisteg	- Dim newidiadau i drefniadau llywodraethu / strwythurau gweinyddol; byddai'r trefniadau yn parhau'n weithredol yn unol â Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958 a'r Concordat rhwng Yr Archifau Gwladol a Llywodraeth Cymru. - Amserlenni: cyfnod datblygu ar gyfer nodi, creu, treialu a chyflwyno adnoddau addas sy'n canolbwyntio ar Gymru, 2-5 mlynedd.

Cryfderau	Gwendidau
- Dyma'r ffordd gyflymaf o sicrhau y cyflawnir swyddogaethau archif genedlaethol i Gymru, gyda'r risg a'r gost isaf. - Ni fydd unrhyw darfu, ansicrwydd na chost yn gysylltiedig â sefydlu corff newydd - Caiff cofnod cyhoeddus Cymru ei reoli heb unrhyw gost i Lywodraeth Cymru - Manteision parhaus gwybodaeth ac arfer arbenigol Yr Archifau Gwladol - Gallai gwasanaethau digidol newydd ehangu mynediad gyda ffocws ar Gymru	- Câi cofnodion o Gymru eu cadw mewn sefydliad wedi'i leoli yn Llundain (er y byddai ganddo gylch gwaith yn cwmpasu Cymru a Lloegr ar gyfer cofnodion cyhoeddus a rôl ehangach yn cwmpasu'r DU gyfan); ni châi unrhyw wasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru - Nid yw'n darparu ffocws na hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; Cymru fyddai'r unig un o wledydd y DU heb archif genedlaethol benodol o hyd - Gallai greu rhaniadau artiffisial rhwng cofnodion 'y DU' a chofnodion 'Cymru' sy'n rhwystro mynediad a dealltwriaeth - Byddai gwasanaethau digidol newydd yn ehangu mynediad gyda ffocws ar Gymru, ond am <i>gost ychwanegol</i> i Lywodraeth Cymru; gallai datblygu'r gwasanaethau hyn fod yn broses gymhleth a drud - Dim manteision ehangach i'r sector archifau ehangach yng Nghymru

Model 2: Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Cymru

Sefydlu swyddfa cofnodion cyhoeddus i Gymru gyda chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar gasglu a rheoli cofnodion Llywodraeth Cymru a chofnodion cyrff 'cofnodion cyhoeddus Cymru' penodedig eraill a darparu mynediad atynt.

	Meini Prawf Asesu	Sail Resymegol / Sylwadau
Dymunoldeb	Sicrhau Cofnod Cyhoeddus Cymru	- Byddai'n gyfrifol am gofnodion cyhoeddus Cymru fel y dynodir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; byddai'r Archifau Gwladol yn parhau i fod yn gyfrifol am y cofnod cyhoeddus annatganoledig yng Nghymru. - Y potensial i adolygu'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus / yr hyn y dylai'r cofnod cenedlaethol ei gynnwys. - Dim cyfrifoldebau nac adnoddau i sicrhau cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus er budd y genedl. - Gydag adnoddau addas, dylai'r trefniadau ar gyfer sicrhau a chadw cofnod cyhoeddus Cymru gyfateb i'r rhai sydd ar waith o dan y ddarpariaeth bresennol gan Yr Archifau Gwladol. - Byddai'r cofnodion yn aros yng Nghymru; gan ddileu unrhyw darfu neu risg bosibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion i'r Archifau Gwladol - Risg bosibl yn ystod y cyfnod pontio; efallai y bydd yn gofyn am ymwneud parhaus Yr Archifau Gwladol nes i'r corff newydd gael ei dreialu'n llawn a dod yn weithredol.
	Cael Mynediad at Gofnod Cyhoeddus Cymru	- Byddai cynulleidfaoedd ymchwil a'r cyhoedd yn gallu cael mynediad ffisegol at gofnod cyhoeddus Cymru yng Nghymru; manteisio ar arbenigedd staff ym meysydd cofnodion Cymru, hanes Cymru a diwylliant Cymru neu gael eu cymorth wrth ymchwilio i'r meysydd hyn. - Dylid gwella mynediad i lunwyr cofnodion; lleoliad ffisegol yng Nghymru sy'n golygu bod modd meithrin cydberthnasau agosach â chyrff cofnod cyhoeddus Cymru. - Byddai cofnodion cyhoeddus Cymru ar wahân i gyd-destun dogfennol ehangach y DU gan gynnwys cofnodion yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli sy'n ymwneud â Chymru a fyddai'n aros gyda'r Archifau Gwladol. - Gydag adnoddau addas, gellid datblygu cyfleusterau a gwasanaethau mynediad priodol (ar y safle, o bell ac ar-lein); byddai gwasanaethau mynediad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

	Y Budd Ehangach	• Byddai cefnogaeth i'r sector archifau ehangach yng Nghymru yn parhau ar sail y gwasanaethau a ddarperir drwy'r Archifau Gwladol (o dan gylch gwaith llai) ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. • Diffyg eglurder ychwanegol ynglŷn â materion sy'n ymwneud ag arwain y sector / cofnodion cyhoeddus gyda chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru, Yr Archifau Gwladol a chyrff yn y sector; byddai angen cydberthnasau cynhyrchiol â'r Archifau Gwladol hefyd o hyd er mwyn cydgysylltu ynglŷn â rheoli cofnodion cyhoeddus annatganoledig a ddelir yng Nghymru. • Dim manteision ychwanegol o ran sicrhau treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru; rôl sy'n canolbwyntio ar gofnod cyhoeddus Cymru yn unig. • Mae'n sefydlu corff archifau cenedlaethol penodol i Gymru, gan ddangos cydraddoldeb â gwledydd eraill y DU, er bod ganddo gylch gwaith llai o gymharu â'r Alban a Gogledd Iwerddon (nid yw'n goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion awdurdodau lleol)
Hyfywedd	Creu'r Seilwaith	• Byddai gwaith cynllunio a datblygu yn gofyn am fewnbwn sylweddol o wybodaeth a sgiliau perthnasol (staffio ac ymgynghoriaeth) yn cwmpasu'r canlynol: deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; dylunio adeiladau archifau a safonau ar gyfer adeiladau o'r fath; systemau cadwraeth ddigidol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth. • Mae angen buddsoddi cyfalaf: mae codi adeilad archifau proffil uchel sy'n cydymffurfio â safonau yn costio rhwng tua £15 ac £20 miliwn. • Datblygu system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio tua £9 miliwn dros 5 mlynedd ar gyfer system annibynnol. Mae'n gymhleth ac yn ddud i'w sefydlu; gall gymryd blynyddoedd i greu system sylfaen a bydd angen ei datblygu'n barhaus. Dylid ystyried partneriaethau posibl â darparwyr cenedlaethol eraill (Yr Archifau Gwladol neu Gofnodion Cenedlaethol yr Alban). • Byddai angen i gostau posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal yn Yr Archifau Gwladol gael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru hefyd.
	Cynnal y Gwasanaeth	• Byddai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn gofyn am wybodaeth a sgiliau perthnasol yn cwmpasu'r canlynol: cynllunio busnes a rheolaeth ariannol; rheoli adeiladau; rheoli casgliadau mewn archifau; cadwraeth ddigidol; cadwraeth ffisegol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth.

		- Costau gweithredu refeniw: rheoli a chynnal a chadw adeiladau; seilwaith TG; cyflenwadau a gwasanaethau; ymgysylltu â'r cyhoedd (ar y safle, o bell, ar-lein); staffio (heb gynnwys cadwraeth ddigidol) – yn dibynnu ar raddfa'r gweithrediadau / y math o adeilad, yr isafswm cost tebygol tua £2.1 miliwn y.f. - Cynnal a chadw a datblygu'r system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio, yr isafswm cost tebygol tua £1.8 miliwn y.f. ar gyfer system annibynnol.
Dichonoldeb	Dibyniaethau	- Gorchymyn gan Ysgrifennydd Gwladol y DU i alw a.147 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym. - Deddfwriaeth newydd a basiwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn creu'r sefydliad a darparu ar gyfer rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru. - Ymgynghori â'r Archifau Gwladol ynghylch trosglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal gan Yr Archifau Gwladol.
	Logisteg	- Byddai angen i ddeddfwriaeth sefydlu strwythurau llywodraethu a systemau adrodd a phennu rolau a chyfrifoldebau – gan sefydlu'r gydberthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff newydd. - Amserlenni: cyfnod datblygu 6-10 mlynedd – Gorchymyn Gweinidogol / Deddfwriaeth (1-2 flynedd); codi adeilad pwrpasol (tua 3 blynedd); sefydlu systemau cadwraeth ddigidol (tua 5 mlynedd); ymgyrch recriwtio staff gydamserol, sefydlu systemau TG ehangach.

Cryfderau	Gwendidau
- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; yn gydradd, i raddau, â gwledydd eraill y DU - Câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru	- Opsiwn cyfyngedig, sy'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol, a buddsoddiad sylweddol, ond nad yw'n sicrhau'r manteision ehangach i dreftadaeth ddogfennol / y sector archifau ehangach yng Nghymru - Mae natur casgliadau (cofnodion modern) yn annhebygol o danio dychymyg y cyhoedd

Model 3: Archif Genedlaethol – goruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; arwain y sector archifau

Sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru â chyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar gasglu a rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru a darparu mynediad atynt, pwerau statudol i oruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol, a rôl arwain ar gyfer y sector archifau ehangach.

	Meini Prawf Asesu	Sail Resymegol / Sylwadau
Dymunoldeb	Sicrhau Cofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai'n gyfrifol am gofnodion cyhoeddus Cymru fel y dynodir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; byddai'r Archifau Gwladol yn parhau i fod yn gyfrifol am y cofnod cyhoeddus annatganoledig yng Nghymru. • Y potensial i adolygu'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus / yr hyn y dylai'r cofnod cenedlaethol ei gynnwys. • Y potensial i gynnwys capasiti caniatol ar gyfer sicrhau cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus er budd y genedl. • Gydag adnoddau addas, dylai'r trefniadau ar gyfer sicrhau a chadw cofnod cyhoeddus Cymru gyfateb i'r rhai sydd ar waith o dan y ddarpariaeth bresennol gan Yr Archifau Gwladol. • Byddai'r cofnodion yn aros yng Nghymru; gan ddileu unrhyw darfu neu risg bosibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion i'r Archifau Gwladol • Risg bosibl yn ystod y cyfnod pontio; efallai y bydd yn gofyn am ymwneud parhaus Yr Archifau Gwladol nes i'r corff newydd gael ei dreialu'n llawn a dod yn weithredol.
	Cael Mynediad at Gofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai cynulleidfaoedd ymchwil a'r cyhoedd yn gallu cael mynediad ffisegol at gofnod cyhoeddus Cymru yng Nghymru; manteisio ar arbenigedd staff ym meysydd cofnodion Cymru, hanes Cymru a diwylliant Cymru neu gael eu cymorth wrth ymchwilio i'r meysydd hyn. • Y potensial i ymestyn y gylch gwaith casglu er budd y genedl, gan wneud casgliadau yn fwy perthnasol a diddorol. Fodd bynnag, gallai hyn achosi dryswch ynglŷn â phriodololau'r corff newydd a'r sefydliadau cenedlaethol eraill megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru. • Dylid gwella mynediad i lunwyr cofnodion; lleoliad ffisegol yng Nghymru sy'n golygu bod modd meithrin cydberthnasau agosach â chyrff cofnod cyhoeddus Cymru. • Byddai cofnodion cyhoeddus Cymru ar wahân i gyd-destun dogfennol ehangach y DU gan gynnwys cofnodion yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli sy'n ymwneud â Chymru a fyddai'n aros gyda'r Archifau Gwladol. • Gydag adnoddau addas, gellid datblygu cyfleusterau a gwasanaethau mynediad priodol (ar y safle, o bell ac ar-lein); byddai gwasanaethau mynediad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

	Y Budd Ehangach	• Corff cenedlaethol â'r cylch gwaith, y proffil a'r wybodaeth i arwain y sector archifau yng Nghymru ac eirioli drosto. • Diffyg eglurder posibl ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chofnodion cyhoeddus gyda chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol; byddai angen cydberthnasau cynhyrchiol â'r Archifau Gwladol hefyd o hyd er mwyn cydgysylltu ynglŷn â rheoli cofnodion cyhoeddus annatganoledig a ddelir yng Nghymru. • Cyfrwng ar gyfer sicrhau treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru; y potensial i gydgyssylltu rhaglenni cenedlaethol a gweledigaeth genedlaethol gydlynol i'r sector archifau yng Nghymru. • Mae'n sefydlu corff archifau cenedlaethol penodol i Gymru, gan ddangos cydraddoldeb â gwledydd eraill y DU, sydd â chylch gwaith cyfatebol i sefydliadau archifau cenedlaethol eraill yn y DU.
Hyfywedd	Creu'r Seilwaith	• Byddai gwaith cynllunio a datblygu yn gofyn am fewnbwn sylweddol o wybodaeth a sgiliau perthnasol (staffio ac ymgynghoriaeth) yn cwmpasu'r canlynol: deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; dylunio adeiladau archifau a safonau ar gyfer adeiladau o'r fath; systemau cadwraeth ddigidol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth; ymgysylltu â rhanddeiliaid. • Mae angen buddsoddi cyfalaf: mae codi adeilad archifau proffil uchel sy'n cydymffurfio â safonau yn costio rhwng tua £15 ac £20 miliwn. • Datblygu system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio tua £9 miliwn dros 5 mlynedd ar gyfer system annibynnol. Mae'n gymhleth ac yn ddud i'w sefydlu; gall gymryd blynyddoedd i greu system sylfaen a bydd angen ei datblygu'n barhaus. Dylid ystyried partneriaethau posibl â darparwyr cenedlaethol eraill (Yr Archifau Gwladol neu Gofnodion Cenedlaethol yr Alban). • Byddai angen i gostau posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal yn Yr Archifau Gwladol gael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru hefyd.
	Cynnal y Gwasanaeth	• Byddai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn gofyn am wybodaeth a sgiliau perthnasol yn cwmpasu'r canlynol: cynllunio busnes a rheolaeth ariannol; rheoli adeiladau; rheoli casgliadau mewn archifau; cadwraeth ddigidol; cadwraeth ffisegol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth; rheoli cydberthnasau â rhanddeiliaid yn y sector.

		- Costau gweithredu refeniw: rheoli a chynnal a chadw adeiladau; seilwaith TG; cyflenwadau a gwasanaethau; ymgysylltu â'r sector a'i gefnogi; ymgysylltu â'r cyhoedd (ar y safle, o bell, ar-lein); staffio (heb gynnwys cadwraeth ddigidol) – yn dibynnu ar raddfa'r gweithrediadau / y math o adeilad, yr isafswm cost tebygol tua £2.3 miliwn y.f. - Cynnal a chadw a datblygu'r system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio, yr isafswm cost tebygol tua £1.8 miliwn y.f. ar gyfer system annibynnol.
Dichonoldeb	Dibyniaethau	- Gorchymyn gan Ysgrifennydd Gwladol y DU i alw a.147 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym. - Deddfwriaeth newydd a basiwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn creu'r sefydliad a darparu ar gyfer rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru, cyflawni rôl arwain ar gyfer y sector a goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach. - Ymgynghori â'r Archifau Gwladol ynghylch trosglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal gan Yr Archifau Gwladol. - Ymgynghori â llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill ynghylch y broses ar gyfer goruchwyllo swyddogaethau cadw cofnodion.
	Logisteg	- Byddai angen i deddfwriaeth sefydlu strwythurau llywodraethu a systemau adrodd a phennu rolau a chyfrifoldebau – gan sefydlu'r gydberthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff newydd, a threfniadau adrodd sy'n ymwneud â goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus. - Amserlenni: cyfnod datblygu 6-10 mlynedd – Gorchymyn Gweinidogol / Deddfwriaeth (1-2 flynedd); codi adeilad pwrpasol (tua 3 blynedd); sefydlu systemau cadwraeth ddigidol (tua 5 mlynedd); ymgyrch recriwtio staff gydamserol, sefydlu systemau TG ehangach.

Cryfderau	Gwendidau
- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; mae'n sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn debycach i'r un yng ngwledydd eraill y DU - Câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru - Mae'n helpu i ddiogelu treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru ac yn ychwanegu gwerth o ran arwain a chefnogi'r sector archifau	- Opsiwn mwy cymhleth, sy'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol, a buddsoddiad sylweddol - Mae natur casgliadau (cofnodion modern) yn annhebygol o danio dychymyg y cyhoedd

Model 4: Archif Genedlaethol – goruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; arwain y sector archifau; a darparu gwasanaethau canolog

Sefydlu Archif Genedlaethol i Gymru â chyfrifoldebau am reoli cofnodion cyhoeddus Cymru, pwerau statudol i oruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol, a rôl arwain ar gyfer y sector archifau, gan gynnwys darparu gwasanaethau cymorth canolog.

	Meini Prawf Asesu	Sail Resymegol / Sylwadau
Dymunoldeb	Sicrhau Cofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai'n gyfrifol am gofnodion cyhoeddus Cymru fel y dynodir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; byddai'r Archifau Gwladol yn parhau i fod yn gyfrifol am y cofnod cyhoeddus annatganoledig yng Nghymru. • Y potensial i adolygu'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus / yr hyn y dylai'r cofnod cenedlaethol ei gynnwys. • Y potensial i gynnwys capasiti caniaatol ar gyfer sicrhau cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus er budd y genedl. • Gydag adnoddau addas, dylai'r trefniadau ar gyfer sicrhau a chadw cofnod cyhoeddus Cymru gyfateb i'r rhai sydd ar waith o dan y ddarpariaeth bresennol gan Yr Archifau Gwladol. • Byddai cofnodion yn aros yng Nghymru, gan ddileu unrhyw darfu neu risg bosibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion i'r Archifau Gwladol. • Risg bosibl yn ystod y cyfnod pontio; efallai y bydd yn gofyn am ymwneud parhaus Yr Archifau Gwladol nes i'r corff newydd gael ei dreialu'n llawn a dod yn weithredol.
	Cael Mynediad at Gofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai cynulleidfaoedd ymchwil a'r cyhoedd yn gallu cael mynediad ffisegol at gofnod cyhoeddus Cymru yng Nghymru; manteisio ar arbenigedd staff ym meysydd cofnodion Cymru, hanes Cymru a diwylliant Cymru neu gael eu cymorth wrth ymchwilio i'r meysydd hyn. • Y potensial i ymestyn y gylch gwaith casglu er budd y genedl, gan wneud casgliadau yn fwy perthnasol a diddorol. Fodd bynnag, gallai hyn achosi dryswch ynglŷn â phriod rolau'r corff newydd a'r sefydliadau cenedlaethol eraill megis Llyfrgell Genedlaethol Cymru. • Dylid gwella mynediad i lunwyr cofnodion; lleoliad ffisegol yng Nghymru sy'n golygu bod modd meithrin cydberthnasau agosach â chyrrff cofnod cyhoeddus Cymru a llunwyr cofnodion eraill. • Byddai cofnodion cyhoeddus Cymru ar wahân i gyd-destun dogfennol ehangach y DU gan gynnwys cofnodion yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli sy'n ymwneud â Chymru a fyddai'n aros gyda'r Archifau Gwladol. • Gydag adnoddau addas, gellid datblygu cyfleusterau a gwasanaethau mynediad priodol (ar y safle, o bell ac ar-lein); byddai gwasanaethau mynediad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

	Y Budd Ehangach	• Corff cenedlaethol â'r cylch gwaith, y proffil a'r wybodaeth i arwain y sector archifau yng Nghymru ac eirioli drosto; mae'n rhoi cymorth uniongyrchol i'r sector drwy ddarparu gwasanaethau canolog, e.e. wrth sicrhau'r cofnod digidol cenedlaethol. • Diffyg eglurder posibl ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chofnodion cyhoeddus gyda chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol; byddai angen cydberthnasau cynhyrchiol â'r Archifau Gwladol hefyd o hyd er mwyn cydgysylltu ynglŷn â rheoli cofnodion cyhoeddus annatganoledig a ddelir yng Nghymru. • Cyfrwng ar gyfer sicrhau treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru; y potensial i gydgysylltu rhaglenni cenedlaethol a gweledigaeth genedlaethol gydlynol i'r sector archifau yng Nghymru. • Mae'n sefydlu corff archifau cenedlaethol penodol i Gymru, gan ddangos cydraddoldeb â gwledydd eraill y DU, sydd â model cyflawni sydd ar y blaen i fodelau cyflawni sefydliadau archifau cenedlaethol eraill yn y DU.
Hyfywedd	Creu'r Seilwaith	• Byddai gwaith cynllunio a datblygu yn gofyn am fewnbwn sylweddol o wybodaeth a sgiliau perthnasol (staffio ac ymgynghoriaeth) yn cwmpasu'r canlynol: deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; dylunio adeiladau archifau a safonau ar gyfer adeiladau o'r fath; systemau cadwraeth ddigidol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth; ymgysylltu â rhanddeiliaid. • Mae angen buddsoddi cyfalaf: mae codi adeilad archifau proffil uchel sy'n cydymffurfio â safonau yn costio rhwng tua £15 ac £20 miliwn. • Datblygu system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio tua £9 miliwn dros 5 mlynedd ar gyfer system annibynnol. Mae'n gymhleth ac yn ddrud i'w sefydlu; gall gymryd blynyddoedd i greu system sylfaen a bydd angen ei datblygu'n barhaus. Dylid ystyried partneriaethau posibl â darparwyr cenedlaethol eraill (Yr Archifau Gwladol neu Gofnodion Cenedlaethol yr Alban). • Byddai angen i gostau posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal yn Yr Archifau Gwladol gael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru hefyd.
	Cynnal y Gwasanaeth	• Byddai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn gofyn am wybodaeth a sgiliau perthnasol yn cwmpasu'r canlynol: cynllunio busnes a rheolaeth ariannol; rheoli adeiladau; rheoli casgliadau mewn archifau; cadwraeth ddigidol; cadwraeth ffisegol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth; rheoli cydberthnasau â rhanddeiliaid yn y sector; darparu a rheoli gwasanaethau canolog. • Costau gweithredu refeniw: rheoli a chynnal a chadw adeiladau; seilwaith TG; cyflenwadau a gwasanaethau; ymgysylltu â'r sector a'i gefnogi; ymgysylltu â'r cyhoedd (ar y safle, o bell, ar-lein); staffio (heb gynnwys

		cadwraeth ddigidol) – yn dibynnu ar raddfa'r gweithrediadau / y math o adeilad, yr isafswm cost tebygol tua £2.5 miliwn y.f. Cynnal a chadw a datblygu'r system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio, yr isafswm cost tebygol tua £1.8 miliwn y.f. ar gyfer system annibynnol. Byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig ag ymestyn y ddarpariaeth i gefnogi'r sector archifau ehangach, na ellir eu cyfrifo ar hyn o bryd.
Dichonoldeb	Dibyniaethau	- Gorchymyn gan Ysgrifennydd Gwladol y DU i alw a.147 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym. - Deddfwriaeth newydd a basiwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn creu'r sefydliad a darparu ar gyfer rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru, cyflawni rôl arwain ar gyfer y sector gan gynnwys darparu gwasanaethau canolog a goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach. - Ymgynghori â'r Archifau Gwladol ynghylch trosglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal gan Yr Archifau Gwladol. - Ymgynghori â llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill ynghylch y broses ar gyfer goruchwyllo swyddogaethau cadw cofnodion.
	Logisteg	- Byddai angen i ddeddfwriaeth sefydlu strwythurau llywodraethu a systemau adrodd a phennu rolau a chyfrifoldebau – gan sefydlu'r gydberthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff newydd, a threfniadau adrodd sy'n ymwneud â goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus. - Amserlenni: cyfnod datblygu 6-10 mlynedd – Gorchymyn Gweinidogol / Deddfwriaeth (1-2 flynedd); codi adeilad pwrpasol (tua 3 blynedd); sefydlu systemau cadwraeth ddigidol (tua 5 mlynedd); ymgrych recriwtio staff gydamserol, sefydlu systemau TG ehangach.

Cryfderau	Gwendidau
- Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol sefydliad cenedlaethol Cymreig; model cyflawni sydd ar y blaen i fodelau cyflawni gwledydd eraill y DU - Câi gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru - Mae'n helpu i ddiogelu treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru ac yn ychwanegu gwerth o ran arwain y sector archifau a rhoi cymorth ymarferol gwirioneddol iddo	- Yn fwy cymhleth fyth, sy'n gofyn am newidiadau deddfwriaethol a buddsoddiad ychwanegol sylweddol - Gallai amharu ar y trefniadau ar gyfer darparu adnoddau i sefydliadau cenedlaethol eraill

Model 5: System Archifau Genedlaethol – goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus; darparu gwasanaethau archifau lleol

Sefydlu System Archifau Genedlaethol newydd sy'n cynnwys swyddfeydd cofnodion awdurdodau lleol fel rhan o system i Gymru gyfan ochr yn ochr ag archif genedlaethol ganolog. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru a goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn awdurdodau lleol.

	Meini Prawf Asesu	Sail Resymegol / Sylwadau
Dymunoldeb	Sicrhau Cofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai'n gyfrifol am gofnodion cyhoeddus Cymru fel y dynodir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; byddai'r Archifau Gwladol yn parhau i fod yn gyfrifol am y cofnod cyhoeddus annatganoledig yng Nghymru; y potensial i adolygu'r diffiniad o gofnodion cyhoeddus / yr hyn y dylai'r cofnod cenedlaethol ei gynnwys. • Cylch gwaith eang sy'n cwmpasu pob rhan o dreftadaeth ddogfennol Cymru, sy'n cynnwys casgliadau lleol sy'n cael eu creu gan yr holl lunwyr cofnodion posibl; sy'n sicrhau cofnod gwirioneddol genedlaethol. • Gydag adnoddau addas, dylai'r trefniadau ar gyfer sicrhau a chadw casgliadau gyfateb i'r rhai sydd ar waith o dan y ddarpariaeth bresennol gan Yr Archifau Gwladol. • Byddai cofnodion yn aros yng Nghymru, gan ddileu unrhyw darfu neu risg bosibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion i'r Archifau Gwladol. • Risg bosibl yn ystod y cyfnod pontio; efallai y bydd yn gofyn am ymwneud parhaus Yr Archifau Gwladol nes i'r corff newydd gael ei dreialu'n llawn a dod yn weithredol.
	Cael Mynediad at Gofnod Cyhoeddus Cymru	• Byddai cynulleidfaoedd ymchwil a'r cyhoedd yn gallu cael mynediad ffisegol at gofnod cyhoeddus Cymru yng Nghymru mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt; manteisio ar arbenigedd staff ym meysydd cofnodion Cymru, hanes Cymru a diwylliant Cymru neu gael eu cymorth wrth ymchwilio i'r meysydd hyn. • Y potensial i gydraddoli'r gwasanaethau a gynigir / ansawdd gwasanaethau ledled Cymru; lleihau amrywiadau o ran darpariaeth leol a sicrhau bod gwasanaethau lleol / rhanbarthol yn gynaliadwy. • Cylch gwaith casglu eang, sy'n gwneud casgliadau yn fwy perthnasol a diddorol, ac sy'n creu cofnod gwirioneddol genedlaethol; y potensial ar gyfer rhaglenni mynediad cenedlaethol sy'n cwmpasu cofnod cyhoeddus Cymru a chasgliadau lleol. • Y risg bosibl i'r ddarpariaeth ar gyfer diwylliant a hanes lleol sy'n gysylltiedig â datblygu un diwylliant archifol; sy'n gwahanu trefniadau casglu lleol ac yn ad-drefnu pwyntiau mynediad lleol.

Hyfywedd		- Dylid gwella mynediad i lunwyr cofnodion; lleoliad ffisegol yng Nghymru sy'n golygu bod modd meithrin cydberthnasau agosach â chyrrff cofnod cyhoeddus Cymru a llunwyr cofnodion eraill. - Byddai cofnodion cyhoeddus Cymru ar wahân i gyd-destun dogfennol ehangach y DU gan gynnwys cofnodion yn dyddio o'r cyfnod cyn datganoli sy'n ymwneud â Chymru a fyddai'n aros gyda'r Archifau Gwladol. - Gydag adnoddau addas, gellid datblygu cyfleusterau a gwasanaethau mynediad i Gymru gyfan (ar y safle, o bell ac ar-lein); byddai gwasanaethau mynediad yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.
	Y Budd Ehangach	- System genedlaethol sydd â'r cylch gwaith, y proffil a'r wybodaeth i ddarparu gwasanaeth cenedlaethol ledled Cymru. - Diffyg eglurder posibl ynglŷn â materion sy'n ymwneud â chofnodion cyhoeddus gyda chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol; byddai angen cydberthnasau cynhyrchiol â'r Archifau Gwladol hefyd o hyd er mwyn cydgysylltu ynglŷn â rheoli cofnodion cyhoeddus annatganoledig a ddelir yng Nghymru. - Problemau posibl o ran pwy sy'n berchen ar gasgliadau a deunydd wedi'i adneuo awdurdodau lleol a phwy sy'n gyfrifol amdanynt yn y pen draw; risg y byddai trosglwyddo gwasanaethau lleol i gorff cenedlaethol yn annerbyniol yn wleidyddol ar lefel leol. - Cyfrwng ar gyfer sicrhau treftadaeth ddogfennol ehangach Cymru a darparu mynediad ati; y potensial i gydgysylltu rhaglenni cenedlaethol a gweledigaeth genedlaethol gydynol ar gyfer darparu archifau yng Nghymru. - Mae'n sefydlu corff archifau cenedlaethol penodol i Gymru, gan ddangos cydraddoldeb â gwledydd eraill y DU, sydd â model cyflawni arloesol ac unigryw sydd ar y blaen i fodelau cyflawni archifau cenedlaethol eraill yn y DU.
	Creu'r Seilwaith	- Byddai gwaith cynllunio a datblygu yn gofyn am fewnbwn sylweddol o wybodaeth a sgiliau perthnasol (staffio ac ymgynghoriaeth) yn cwmpasu'r canlynol: deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; dylunio adeiladau archifau a safonau ar gyfer adeiladau o'r fath; systemau cadwraeth ddigidol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth; ymgysylltu â rhanddeiliaid. - Mae angen buddsoddi cyfalaf: mae codi adeilad archifau proffil uchel sy'n cydymffurfio â safonau yn costio rhwng tua £15 ac £20 miliwn. - Costau cyfalaf ychwanegol sy'n gysylltiedig ag eiddo (adeiladau archifau awdurdodau lleol) a allai gael ei drosglwyddo i'r sefydliad cenedlaethol; ni ellir cyfrifo'r costau hyn ar hyn o bryd.

		- Datblygu system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio tua £9 miliwn dros 5 mlynedd ar gyfer system annibynnol. Mae'n gymhleth ac yn ddrud i'w sefydlu; gall gymryd blynyddoedd i greu system sylfaen a bydd angen ei datblygu'n barhaus. Dylid ystyried partneriaethau posibl â darparwyr cenedlaethol eraill (Yr Archifau Gwladol neu Gofnodion Cenedlaethol yr Alban). - Byddai angen i gostau posibl sy'n gysylltiedig â throsglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal yn Yr Archifau Gwladol gael eu talu o gyllidebau Llywodraeth Cymru hefyd.
	Cynnal y Gwasanaeth	- Byddai'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn gofyn am wybodaeth a sgiliau perthnasol yn cwmpasu'r canlynol: cynllunio busnes a rheolaeth ariannol; rheoli adeiladau; rheoli casgliadau mewn archifau; cadwraeth ddigidol; cadwraeth ffisegol; darparu gwasanaethau cyhoeddus; deddfwriaeth cofnodion cyhoeddus; cydymffurfio â deddfwriaeth ynglŷn â gwybodaeth; rheoli cydberthnasau â rhanddeiliaid yn y sector; darparu a rheoli gwasanaethau canolog. - Costau gweithredu refeniw: rheoli a chynnal a chadw adeiladau; seilwaith TG; cyflenwadau a gwasanaethau; ymgysylltu â'r sector a'i gefnogi; ymgysylltu â'r cyhoedd (ar y safle, o bell, ar-lein); staffio (heb gynnwys cadwraeth ddigidol) – yn dibynnu ar raddfa'r gweithrediadau / y math o adeilad, yr isafswm cost tebygol tua £2.5 miliwn y.f. - Costau refeniw ychwanegol ar gyfer cynnal rhwydwaith o swyddfeydd lleol ledled Cymru, casglu a chadw casgliadau lleol a darparu mynediad atynt; mae gwariant refeniw y rhoddwyd gwybod i CIPFA amdano yn awgrymu y byddai'r costau hyn tua £5 miliwn y.f. yn seiliedig ar y rhwydwaith presennol. - Cynnal a chadw a datblygu'r system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio, yr isafswm cost tebygol tua £1.8 miliwn y.f. ar gyfer system annibynnol. Byddai costau ychwanegol yn gysylltiedig ag ymestyn y ddarpariaeth i gefnogi cadwraeth ddigidol ym mhob rhan o'r rhwydwaith lleol. Ni ellir cyfrifo'r costau hyn ar hyn o bryd.
Dichonoldeb	Dibyniaethau	- Gorchymyn gan Ysgrifennydd Gwladol y DU i alw a.147 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym. - Deddfwriaeth newydd a basiwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn creu'r sefydliad a darparu ar gyfer rheoli cofnodion cyhoeddus Cymru, gan ddod â gwasanaethau awdurdodau lleol o dan drefniadau cenedlaethol, a goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion mewn llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ehangach. - Diwygiadau posibl i a.60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (Cymru) 1994 fel y mae'n ymwneud â darparu archifau lleol.

		• Ymgynghori â'r Archifau Gwladol ynghylch trosglwyddo cofnodion cyhoeddus Cymru sydd eisoes yn cael eu dal gan Yr Archifau Gwladol. • Ymgynghori â llywodraeth leol a chyrff cyhoeddus eraill ynghylch y broses ar gyfer goruchwyllo swyddogaethau cadw cofnodion ac integreiddio gwasanaethau awdurdodau lleol mewn sefydliad cenedlaethol.
	Logisteg	• Byddai angen i ddeddfwriaeth sefydlu stwythurau llywodraethu a systemau adrodd a phennu rolau a chyfrifoldebau – gan sefydlu'r gydberthynas ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r corff newydd, trefniadau adrodd sy'n ymwneud â goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus a chyfrifoldebau a chydberthnasau gweithredol gydag awdurdodau lleol sy'n ymwneud â gwasanaethau archifau lleol. • Amserlenni: cyfnod datblygu 6-10 mlynedd – Gorchymyn Gweinidogol / Deddfwriaeth (1-2 flynedd); codi adeilad pwrcasol (tua 3 blynedd); sefydlu systemau cadwraeth ddigidol (tua 5 mlynedd); ymgrych recriwtio staff gydamsol, sefydlu systemau TG ehangach.

Cryfderau	Gwendidau
• Mae'n darparu ffocws / hunaniaeth ddiwylliannol system archifol genedlaethol Gymreig, sy'n cwmpasu corff cenedlaethol canolog, a mannau gwasanaeth lleol; model cyflawni unigryw ac uchelgeisiol sydd ar y blaen i fodelau cyflawni gwledydd eraill y DU • Câl gwasanaethau ffisegol eu darparu yng Nghymru; mae'r model yn sicrhau y darperir gwasanaeth cyfartal ledled Cymru, gan gynnal gwasanaethau lleol • Mae'n diogelu treftadaeth ddogfennol wirioneddol genedlaethol Cymru, gyda model cyflawni sy'n gysylltiedig ledled y wlad	• Model cymhleth iawn a'r un drutaf o blith yr holl fodelau, sy'n gofyn am fuddsoddiad ychwanegol sylweddol ac amserlen hir • Mae'n gofyn am wneud newidiadau deddfwriaethol a throsglwyddo'r cyfrifoldeb am gadw eiddo a chofnodion • Mae'n bosibl na fydd yn dderbyniol ar lefel wleidyddol leol

Atodiad 1: Cymaryddion Gwasanaethau Archifau Cenedlaethol

Yr Archifau Gwladol (The National Archives - TNA)	
Model	Archif wladol â swyddogaethau ychwanegol (e.e. Argraffydd y Frenhines); un man gwasanaeth ffisegol; rôl arwain ar gyfer y sector archifau yn Lloegr; mae'n goruchwyllo gweithgarwch rheoli cofnodion mewn llywodraeth ganolog yn unig.
Proffil casgliadau	Dros 11 miliwn o ddogfennau (fformatau analog a digidol), sy'n cynnwys cofnodion Llywodraeth ganolog o'r 11eg ganrif ymlaen.
Nifer y staff	539 o aelodau o staff CALI sy'n cyflawni holl gyfrifoldebau'r Archifau Gwladol, nid dim ond dyletswyddau archifol.
Cyllideb	Cyfanswm gwariant o £44.3m, y mae staff yn cyfrif am £24.8m ohono; cododd £9.2m drwy incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys gwerthu copïau o ddogfennau a chyhoeddiadau, ffioedd atgynhyrchu a thrwyddedu. (Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon 2017-18).
Cefndir	Fe'i crëwyd yn 2003 drwy gyfuno'r Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus (sefydlwyd yn 1838) a'r Comisiwn Llawysgrifau Hanesyddol; Yn 2006, ymgorfforodd Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus (OPSI) gan gynnwys Llyfrfa Ei Mawrhydi (HMSO). Cymerodd gyfrifoldeb am arwain y sector archifau yn Lloegr yn 2012, pan gafodd y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau ei ddiddymu.
Y sail gyfreithiol	Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1958; adran anweinidogol sy'n atebol i'r Gweinidog Gwladol dros bolisi digidol.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif wladol i'r Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr • Y Prif Swyddog Gweithredol yw Ceidwad Cofnodion Cyhoeddus; fe'i cefnogir gan Gyngor Cynghori • Nid yw'n goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion y tu allan i lywodraeth ganolog; rôl gynghori mewn perthynas â rheoli cofnodion / gwybodaeth ar gyfer gweithgarwch cadw cofnodion yn y sector cyhoeddus ehangach, gan gynnwys ailddefnyddio gwybodaeth y sector cyhoeddus • Mae'n arolygu ac yn pennu Mannau Adneuo i ddal cofnodion cyhoeddus ar ran Yr Archifau Gwladol yng Nghymru a Lloegr • Arweinydd y sector archifau yn Lloegr; rôl gynghori mewn perthynas â rheoli archifau; partner a rheolwr y cynllun ar gyfer Archredu Gwasanaethau Archifau; mae'n cefnogi gwaith ymchwil a datblygu, yn cydweithredu'n eang i ddatblygu arfer gorau. • Mae'n cydweithio ag archifau cenedlaethol / sefydliadau diwylliannol eraill yn y DU ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall, e.e. cadwraeth ddigidol.
Adeiladau	Un safle a adeiladwyd i'r pwrpas (1977) yn Kew (mynediad cyhoeddus, storfeydd, cyfleusterau i'r staff). Storfeydd ychwanegol yn Deepstore yn Swydd Gaer.

Y gallu i storio cofnodion digidol	Arweinydd byd-eang sydd ag 20 mlynedd o brofiad o ddatblygiadau digidol, gan gynnwys sawl adnodd cadwraeth ddigidol a gydnabyddir yn rhyngwladol: DROID (adnabod fformatau) a PRONOM (cofrestrfa fformatau ffeiliau), a'r Dilysydd Ffeiliau CSV ('CSV Validator'). Mae'n cynnal system cadwraeth ddigidol fewnol, sy'n cael ei datblygu'n barhaus wrth i gymhlethdod a maint yr heriau technolegol gynyddu. Heriau o ran recriwtio / cadw staff â'r sgiliau priodol.
------------------------------------	--

Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Ynys Manaw	
Model	Swyddfa cofnodion cyhoeddus â chyfrifoldebau casglu ychwanegol; un man gwasanaeth ffisegol; y gwasanaeth archifau i Ynys Manaw (cofnodion cyhoeddus yn bennaf); mae'n rhoi cyngor i gyrff cofnodion cyhoeddus ar reoli cofnodion.
Proffil casgliadau	Cofnodion senedd Ynys Manaw ac adrannau / sefydliadau'r llywodraeth; cofnodion awdurdodau lleol; cofnodion llysoedd a chyrff cofnodion cyhoeddus lleol eraill – sy'n dyddio o 1800 i'r presennol.
Nifer y staff	6 CALI
Cyllideb	Cyllideb weithredol fach fel rhan o Gofrestrfa Ganolog Ynys Manaw.
Cefndir	Fe'i sefydlwyd yn y 1990au fel rhan o'r Gofrestrfa Gyffredinol. Cyn iddi gael ei sefydlu roedd cofnodion cyhoeddus yn cael eu cadw gan Lyfrgell ac Archifau Treftadaeth Genedlaethol Ynys Manaw; mae Llyfrgell Treftadaeth Genedlaethol Ynys Manaw yn dal i ddal rhai cofnodion cyhoeddus a phob un o archifau eraill Ynys Manaw, gan gynnwys papurau busnes a phersonol a ffynonellau ar gyfer ymchwilio i hanes y teulu.
Y sail gyfreithiol	Deddf Cofnodion Cyhoeddus 1999; Gorchymyn Cofnodion Cyhoeddus 2015; rhan o swyddogaeth y Gofrestrfa Ganolog o fewn yr Adran Menter.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Swyddfa cofnodion Ynys Manaw • Dan ofal y Prif Gofrestrydd • Mae'n cadw cofnodion senedd Ynys Manaw a chyrff cyhoeddus eraill Ynys Manaw sydd o bwys hanesyddol a diwylliannol • Pwerau i weld ac archwilio pob cofnod cyhoeddus; mae'n gweithio gyda chyrff cyhoeddus i roi cyngor ac arweiniad • Mae'n asesu pob Man Adneuo cyn iddo gael ei ddynodi i ddal cofnodion cyhoeddus ar ei rhan er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd safonau addas • Mae'n cydweithio â sefydliadau diwylliannol eraill ar Ynys Manaw er mwyn sicrhau y caiff cof cenedlaethol yr Ynys ei gadw'n briodol
Adeiladau	Un safle a addaswyd o uned ddiwydiannol ysgafn (mynediad cyhoeddus, storfeydd, cyfleusterau i'r staff).
Y gallu i storio cofnodion digidol	Gweithrediad bach; datblygu polisïau a strategaethau ar gyfer coladu, cadw a storio archifau digidol.

Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (National Records of Scotland - NRS)	
Model	Archif genedlaethol â swyddogaethau ychwanegol (e.e. ystadegau'r llywodraeth); un man gwasanaeth ffisegol; dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector archifau ond mae'n cyfeirio cyllid at gyrff eraill; cyfrifoldeb statudol am oruchwylio gweithgarwch rheoli cofnodion mewn llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol.
Proffil casgliadau	Tua 80 cilomedr llinellol o gofnodion analog (90% ohonynt yn gofnodion cyhoeddus); tua 20TB o gofnodion digidol anedig mewn system cadwraeth ddigidol, ynghyd â 700TB o ddeunydd wedi'i ddigideiddio; mae daliadau yn cynnwys cofnodion Llywodraeth yr Alban a system llysoedd, a rhai cofnodion preifat o bwys cenedlaethol, sy'n dyddio o'r 12fed ganrif ymlaen.
Nifer y staff	Tua 450 o aelodau o staff CALI sy'n cyflawni pob un o swyddogaethau Cofnodion Cenedlaethol yr Alban; mae tua 50 yn ymwneud yn uniongyrchol â'r swyddogaeth archifol, ond gydag aelodau eraill o staff yn cyflawni rolau cymorth.
Cyllideb	Cyllideb weithredol o £34.3m; Cyllideb gyfalaf o £2.9m. (Diwygiad i'r Gyllideb Hydref 2018/19).
Cefndir	Fe'i crëwyd yn 2011 drwy gyfuno Archifau Cenedlaethol yr Alban a Swyddfa Cofrestrfa Gyffredinol yr Alban. Mae cyrff rhagflaenol a gweithgarwch yn dyddio'n ôl i'r 13eg ganrif, gyda'r storfa swyddogol gyntaf yn cael ei sefydlu'n ffurfiol yn y 18fed ganrif.
Y sail gyfreithiol	Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Yr Alban) 1937; Deddf Treftadaeth Genedlaethol (Yr Alban) 1985 (darpariaeth ar gyfer cofnodion nad ydynt yn rhai cyhoeddus); Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Yr Alban) 2011 (goruchwylio gweithgarwch rheoli cofnodion awdurdodau lleol); swyddfa anweinidogol Llywodraeth yr Alban.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif Genedlaethol yr Alban • Y Prif Swyddog Gweithredol yw Ceidwad Cofnodion yr Alban; dim Cyngor Cyngori • Mae'n goruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus (Yr Alban) 2011; mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Rheoli Cofnodion y mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y Ceidwad; ystyrir yn gyffredinol ei bod wedi llwyddo i wella ansawdd cofnodion lleol a phrosesau rheoli gwybodaeth • Dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector, mae'n cyfeirio cyllid at Gyngor yr Alban ar Archifau; un o bartneriaid y cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau • Mae'n cydweithio ag archifau cenedlaethol / sefydliadau diwylliannol eraill yn y DU ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall (gan gynnwys gweithgarwch casglu yn yr Alban); mae'n gweithio gyda sefydliadau partner a'r sector i rannu profiad a gwersi a ddysgwyd
Adeiladau	Mae'n gweithredu o dri safle yng Nghaeredin, sef: General / New Register House (mynediad cyhoeddus, storfeydd a chyfleusterau i'r staff); West Register House (storfeydd a chyfleusterau i'r staff); Thomas Thomson House (storfeydd a chyfleusterau i'r staff – mynediad drwy apwyntiad).
Y gallu i storio cofnodion digidol	Mae'n mynd ati i feithrin ei gallu i gadw cofnodion digidol, ond nid oes ganddi system weithredol eto; heriau o ran recriwtio a chadw staff â'r sgiliau priodol.

Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (Public Record Office of Northern Ireland - PRONI)	
Model	Archif genedlaethol, swyddfa cofnodion sirol a llyfrgell llawysgrifau genedlaethol ar y cyd; un man gwasanaeth ffisegol; dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector archifau (cyflawnir y rhan fwyaf o rolau'r sector archifau gan PRONI); rôl gynghori mewn perthynas â rheoli cofnodion awdurdodau lleol.
Proffil casgliadau	Tua 30 miliwn o gofnodion analog (sy'n cyfateb i 55-60 cilomedr llinellol); daliadau digidol o tua 1% o ddeunydd cyfatebol; sy'n cynnwys cofnodion llywodraeth ddatganoledig Gogledd Iwerddon, cofnodion awdurdodau lleol a chofnodion preifat, sy'n dyddio o'r 13eg ganrif ymlaen.
Nifer y staff	72.5 o aelodau o staff parhaol CALL; caiff staff prosiect dros dro eu recriwtio fel y bo'n briodol.
Cyllideb	£1.2m (heb gynnwys staff, lle mae'r gost yn cael ei thalu o gyllideb yr Adran Gymunedau); nid yw'n cynhyrchu unrhyw incwm.
Cefndir	Fe'i sefydlwyd yn 1923 o dan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) fel y man adneuo ar gyfer cofnodion cyhoeddus; o dan y Ddeddf roedd PRONI hefyd yn cael derbyn cofnodion o ffynonellau preifat.
Y sail gyfreithiol	Deddf Cofnodion Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1923; mae'n gweithredu fel rhan o'r Adran Gymunedau o fewn Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif genedlaethol, swyddfa cofnodion sirol a llyfrgell llawysgrifau i Ogledd Iwerddon • Dan ofal y Gweinidog Cyllid; penodir y Dirprwy Geidwad (Prif Geidwad Cofnodion) gan y Gweinidog; dim corff cynghori • Rôl gynghori ar gyfer rheoli cofnodion awdurdodau lleol • Nid yw rôl arwain y sector archifau yn berthnasol i gyd-destun Gogledd Iwerddon; un o bartneriaid y cynllun Achredu Gwasanaethau Archifau • Mae'n cydweithio ag archifau cenedlaethol / sefydliadau diwylliannol eraill yn y DU ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall, e.e. cadwraeth ddigidol; mae'n gweithio gyda chyrff archifol, treftadaeth a diwylliannol eraill yng Ngogledd Iwerddon i hyrwyddo pwysigrwydd archifau mewn cymdeithas
Adeiladau	Mae'n gweithredu o safle newydd a adeiladwyd i'r pwrpas yn y Titanic Quarter yn Belfast; fe'i hagorwyd yn 2011 am gost o £29m (mynediad cyhoeddus, storfeydd a chyfleusterau i'r staff).
Y gallu i storio cofnodion digidol	Rhywfaint o gapasiti i gadw cofnodion digidol, a nifer fach o gasgliadau digidol; mae angen datblygu systemau i weithredu ar raddfa wrth ymdrin â'r nifer fawr o gofnodion a gaiff eu creu gan y llywodraeth ddatganoledig.

Archifau Cenedlaethol Iwerddon (National Archives of Ireland - NAI)	
Model	Archif genedlaethol; un man gwasanaeth ffisegol; dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector archifau; rôl gynghori ar gyfer rheoli cofnodion yn adrannau'r llywodraeth neu mewn cyrff gwasanaeth cyhoeddus.
Proffil casgliadau	Tua 100 cilomedr llinellol o gofnodion analog (cofnodion cyhoeddus yn bennaf); dim daliadau digidol; mae'n cynnwys cofnodion Adrannau'r Llywodraeth a'u hasiantaethau, a chofnodion y weinyddiaeth Brydeinig ragflaenol; delir casgliadau preifat os ydynt yn ategu daliadau presennol; yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif ymlaen.
Nifer y staff	Tua 50 o aelodau o staff CALI; mae'n cydnabod bod angen ehangu'r sail staffio (i tua 75) er mwyn iddi allu cynnal rhaglenni cadwraeth ddigidol, allgymorth ac addysg.
Cyllideb	Cyllideb weithredol (2016) o €1.55m (tua £1.4m). (Adroddiad Cyfarwyddwr Yr Archifau Gwladol, 2016) D.S. Nid yw'r costau yn cynnwys cadwraeth ddigidol ac maent ar gyfer rheoli casgliadau analog yn unig.
Cefndir	Fe'i sefydlwyd yn 1988 o dan y Ddeddf Archifau Cenedlaethol i gadw cofnod cyhoeddus Iwerddon; Archifau Cenedlaethol Iwerddon yw olynydd y Swyddfa Dogfennau Gwladol (a sefydlwyd yn 1702) a Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Iwerddon (a sefydlwyd yn 1867) a gyfunwyd i ffurfio'r corff newydd.
Y sail gyfreithiol	Deddf Archifau Cenedlaethol 1986; o dan nawdd yr Adran Diwylliant, Treftadaeth a'r Gaeltacht.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif Genedlaethol Iwerddon • Yn atebol i'r Gweinidog Diwylliant, Treftadaeth a'r Gaeltacht; Penodir y cyfarwyddwr gan y Gweinidog; fe'i cefnogir gan Gyngor Cynghori • Mae'n rhoi cyngor i adrannau'r llywodraeth a chyrff gwasanaeth cyhoeddus ar reoli cofnodion • Dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector archifau, ond mae'n cynnal cydberthnasau proffesiynol ac yn rhoi rhywfaint o gymorth / arweiniad proffesiynol i'r sector • Aelod o Gyngor Cenedlaethol Sefydliadau Diwylliannol, fel y mae Cyfarwyddwyr cyrff cenedlaethol eraill; mae'n chwarae rhan weithredol mewn gweithgarwch rhyngwladol gan gynnwys y Cyngor Rhyngwladol ar Archifau a Grŵp Archifau Ewrop • Mae'n gweithredu yn Saesneg ac yng Ngwyddeleg (Gaeilge)
Adeiladau	Mae'n gweithredu o ddau adeilad yng nghanol Dulyn (dim ond at ddibenion storio y defnyddir un ohonynt); ar hyn o bryd mae'n cynllunio ar gyfer adnewyddu storfeydd a'u hymestyn; mae pwyslais ar ddigideiddio fel ffordd o ateb y galw am fynediad cyhoeddus.
Y gallu i storio cofnodion digidol	Nid yw systemau cadwraeth ddigidol wedi'i sefydlu'n llawn; gweithio gydag adrannau'r Llywodraeth i feithrin dealltwriaeth o'r anghenion o ran cadwraeth ddigidol o fewn y llywodraeth.

Archifau Seland Newydd (Archives New Zealand - ANZ)	
Model	Archif genedlaethol sy'n gweithredu o bedwar man gwasanaeth ffisegol ledled Seland Newydd; cyfrifoldeb statudol am oruchwylio gweithgarwch rheoli cofnodion mewn awdurdodau lleol; o dan y gyfraith caniateir iddi gyflawni rôl i arwain y sector archifau, ond hyd yma nid yw wedi ymgymryd â'r rôl honno.
Proffil casgliadau	tua 144 cilomedr llinellol o gofnodion analog rhwng y pedair swyddfa ranbarthol (tua 144,000 o gasgliadau / 8 miliwn o eitemau); daliadau digidol o fwy na 120TB (4.4TB digidol anedig); mae casgliadau ond yn cynnwys cofnodion y llywodraeth o ddechrau'r 19eg ganrif ymlaen.
Nifer y staff	137.9 o aelodau o staff parhaol CALI rhwng y pedair swyddfa; mae'r rhan fwyaf yn gweithio yn y brif swyddfa yn Wellington.
Cyllideb	Cyllideb weithredol (2018) o NZ\$33.9m (£17.8m).
Cefndir	ANZ yw olynydd yr hen Archifau Cenedlaethol (a sefydlwyd o dan Ddeddf Archifau 1957); ymestynnwyd ei rôl gan Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus 2005, gan gynnwys pwerau ychwanegol i'r Prif Archifydd a rôl arwain ar gyfer gweithgarwch cadw cofnodion ym mhob rhan o lywodraeth ganolog a llywodraeth leol.
Y sail gyfreithiol	Deddf Cofnodion Cyhoeddus 2005; mae'n gweithredu fel rhan o'r Adran Materion Mewnol, ond yn flaenorol roedd yn adran ar wahân o fewn y llywodraeth yn ei rhinwedd ei hun
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif genedlaethol Seland Newydd • Fe'i harweinir gan y Prif Archifydd a benodir gan Brif Weithredwr yr adran gyfrifol (yr Adran Materion Mewnol), ond mae'n gweithredu'n annibynnol ar y Gweinidog / Prif Weithredwr; mae Cyngor Archifau a benodwyd yn rhoi cyngor i'r Gweinidog • Rôl arwain mewn perthynas â chadw cofnodion cyhoeddus; mae'n goruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion ac archifau cyhoeddus; rôl reoleiddio mewn perthynas â gweithgarwch cadw cofnodion awdurdodau lleol, gyda phwerau i ddiogelu cofnodion penodol awdurdodau lleol • Pwerau i gyflawni rôl arwain ar gyfer y sector archifau yn Seland Newydd • Mae'n cydweithio â Gwasanaethau Gwybodaeth y Llywodraeth a Llyfrgell Genedlaethol Seland Newydd er mwyn sicrhau mynediad effeithiol at wybodaeth, ac asiantaethau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn ehangu mynediad i archifau cyhoeddus ar-lein • Mae'n gweithredu yn Saesneg a Maori; mae diwylliant y Maori yn rhan annatod o'i hethos a'r ffordd y mae'n trin hanes Seland Newydd
Adeiladau	Mae'n gweithredu o bedwar safle ranbarthol ledled Seland Newydd (Wellington, Auckland, Christchurch, Dunedin), gyda'i phencadlys yn Wellington. Mae pob safle yn darparu mynediad cyhoeddus, storfeydd a chyfleusterau i'r staff; gan rannu'r risg i ddaliadau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd seismig.

Y gallu i storio cofnodion digidol	Mae'n mynd ati i ddatblygu ei chapasiti i gadw cofnodion digidol, gan roi sylw arbennig i gofnodion digidol a drosglwyddir o adrannau'r llywodraeth.
------------------------------------	--

Llyfrgell ac Archifau Canada (Library and Archives Canada - LAC)	
Model	Archif a llyfrgell genedlaethol ar y cyd; un man gwasanaeth ffisegol; rôl gyfyngedig o ran rheoli cofnodion ar gyfer llywodraeth ganolog yn unig.
Proffil casgliadau	Casgliad helaeth o gofnodion cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys 250 cilomedr llinellol o gofnodion testunol y llywodraeth a chofnodion testunol preifat, llyfrau, papurau newydd, celfwaith, cerddoriaeth ddalen, cynlluniau, mapiau a ffotograffau / deunydd clyweledol; 5000TB o wybodaeth ar ffurf electronig.
Nifer y staff	Tua 1000 o aelodau o staff CALI sy'n cyflawni pob un o swyddogaethau Llyfrgell ac Archifau Canada; mae tua 600 yn ymwneud yn uniongyrchol â'r swyddogaeth archifol.
Cyllideb	Cyllideb weithredol o \$130m y.f. (tua £75.3m); mae swyddogaethau archifol yn cyfrif am ddwy ran o dair o'r gyllideb.
Cefndir	Sefydlwyd Llyfrgell ac Archifau Canada yn 2004 drwy gyfuno swyddogaethau Archifau Cenedlaethol Cymru (a sefydlwyd fel y 'Dominion Archives' yn 1872) a Llyfrgell Genedlaethol Canada (a sefydlwyd yn 1953). Unwyd y ddau sefydliad hyn er mwyn sicrhau arbedion maint (mae cyllideb y sefydliad wedi'i thorri 20% ers 2006, sydd wedi arwain at gwtogi ar rai gwasanaethau) a'i gwneud yn haws i unigolion gael gafael ar ddeunydd drwy gyfuno casgliadau mewn un sefydliad. Unwyd gweithrediadau cyfleusterau ac mae hyn wedi gweithio'n dda, ar y cyfan; yn broffesiynol, mae Llyfrgell ac Archifau Canada wedi cadw dau gnewyllyn o staff proffesiynol, gyda changhennau ar wahân ar gyfer swyddogaethau archif a llyfrgell.
Y sail gyfreithiol	Deddf Llyfrgell ac Archifau Canada 2004; mae'n atebol i Senedd Canada drwy Weinidog Treftadaeth Canada.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif a llyfrgell genedlaethol Canada • O dan gyfarwyddyd Llyfrgellydd ac Archifydd Canada; fe'i cefnogir gan Gyngor Cynghori • Storfa ar gyfer cofnodion y llywodraeth, mae ganddi'r pwerau i hwyluso'r gwaith o reoli gwybodaeth yng nghyrrff y llywodraeth, ond prin yw ei chyfraniad ymarferol at arfer cadw cofnodion y llywodraeth; nid yw'n goruchwyllo gweithgarwch cadw cofnodion y tu allan i lywodraeth ganolog; • Dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector archifau; gwasanaethau a rhwydweithiau archifau taleithiol cryf iawn • Mae'n cydweithio â rhwydwaith Archifau Canada (sy'n cynnwys archifau cyhoeddus a phreifat) gan hyrwyddo arfer da; Memoranda Cyd-ddealltwriaeth ag archifau cenedlaethol eraill i weithio ar feysydd sydd o ddiddordeb i'r naill ochr a'r llall (e.e. gyda'r Archifau Gwladol ar gronfeydd data archifol) • Mae'n gweithredu yn Saesneg a Ffrangeg; gan weithio gyda phobl frodorol i ddatblygu gwasanaethau mewn ieithoedd brodorol

Adeiladau	Adeiladwyd y prif safle yn Ottawa yn 1967 ac mae bellach wedi dyddio; bwriedir codi adeilad newydd yn ei le. Ceir tri man gwasanaeth ychwanegol yn Halifax, Vancouver a Winnipeg (dim ond dau ohonynt sy'n dal casgliadau a lle mae angen gwneud apwyntiad i'w gweld). Mae'r 'Preservation Centre' yn Gatineau, a agorwyd yn 1997 am gost o \$107m (£62m), yn darparu ar gyfer storio a chadw casgliadau yn yr hir dymor; disgwylir i gyfleuster storio dwysedd uchel newydd gael ei ychwanegu, a fydd yn agor yn 2021.
Y gallu i storio cofnodion digidol	Mae trawsnewid digidol yn ffocws strategol i Lyfrgell ac Archifau Canada gyda chapasiti a rhaglenni digideiddio mewnol ar raddfa fawr; mae cadwraeth ddigidol yn flaenoriaeth a nodwyd ond mae Llyfrgell ac Archifau Canada yn wynebu heriau o ran sicrhau'r seilwaith a'r arbenigedd angenrheidiol.

Archifau Cenedlaethol Awstralia (National Archives of Australia - NAA)	
Model	Archif genedlaethol; rhwydwaith o storfeydd a mannau gwasanaeth ledled Awstralia; dim rôl ehangach o ran cadw cofnodion / arwain y sector.
Proffil casgliadau	Tua 40 miliwn o eitemau (analog a digidol, ynghyd â chasgliadau clyweledol helaeth) sy'n cyfateb i 380 cilomedr llinellol o gofnodion analog; tua 5000TB o gasgliadau digidol; mae'r casgliadau yn cynnwys cofnodion y llywodraeth a chofnodion personol pobl bwysig y mae cysylltiad agos rhyngddynt a'r llywodraeth yn rhinwedd eu swydd (pobl o'r Gymanwlad).
Nifer y staff	Tua 340 o aelodau o staff CALI.
Cyllideb	Cyllideb weithredol o ASD\$65m (£35.7m) y.f.
Cefndir	Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Archifau 1983, a ffurfiolodd sefyllfa Archifau Awstralia ar y pryd (Swyddfa Archifau'r Gymanwlad gynt, a sefydlwyd yn 1961 pan enillodd Is-adran Archifau'r Llyfrgell Genedlaethol ei hannibyniaeth). Newidiwyd yr enw yn ffurfiol i Archifau Cenedlaethol Awstralia yn 1998.
Y sail gyfreithiol	Deddf Archifau 1983; mae'n gweithredu fel un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Awstralia sy'n atebol i'r Twrnai Cyffredinol.
Nodweddion allweddol y swyddogaethau archifol	• Archif genedlaethol Awstralia • Fe'i harweinir gan Gyfarwyddwr Cyffredinol a benodir; fe'i cefnogir gan Gyngor Cyngori • Storfa ar gyfer cofnodion y llywodraeth a chofnodion personol pobl o'r Gymanwlad; mae'n gyfrifol am hyrwyddo gwaith rheoli cofnodion da gan asiantaethau Llywodraeth Awstralia; dim cyfrifoldeb ehangach am oruchwylio gweithgarwch cadw cofnodion • Dim rôl ffurfiol o ran arwain y sector archifau ehangach; mae'n ymgysylltu â'r sector fel partner proffesiynol

	Mae'n cydweithio ag Archifau Awstralasiaidd eraill drwy'r Cyngor Archifau Awstralasiaidd ac Awdurdodau Cofnodion (CAARA), sy'n cynnwys Archifau Cenedlaethol Awstralia, Archifau Seland Newydd ac awdurdodau archifau Taleithiau a Thiriogaethau Awstralia.
Adeiladau	Mae'r prif safle yn Canberra (ystafell ddarllen ac orielau), gyda Chyfleuster Cadw Archifau Cenedlaethol ar wahân (a agorwyd yn 2018 am gost o ASD\$64m (£35.2m). Rhwydwaith o saith ystafell ddarllen ychwanegol ledled Awstralia (Adelaide, Brisbane, Darwin, Hobart, Melbourne, Perth) rhai wedi'u cydleoli ag archifau neu lyfrgelloedd taleithiol / tiriogaethol. Naw storfa ychwanegol ledled Awstralia sy'n darparu cyfleusterau storio ar gyfer casgliadau.
Y gallu i storio cofnodion digidol	Mae Archifau Cenedlaethol Awstralia yn cadw gwybodaeth ddigidol ac yn cydnabod y swyddogaethau hyn fel elfen fwyfwy annatod o'u gweithrediadau.

Atodiad 2: Cymaryddion Deddfwriaeth Cofnodion Cyhoeddus / Archifau Cenedlaethol

Public Records Act 1958 (United Kingdom)¹²

Introductory Text

1. General responsibility of the Secretary of State for public records.
2. The Public Record Office.
3. Selection and preservation of public records.
4. Place of deposit of public records.
5. Access to public records.
6. Destruction of public records in Public Record Office or other place of deposit.
7. Records for which Master of the Rolls remains responsible.
8. Court records.
9. Legal validity of public records and authenticated copies.
10. Interpretation.
11. Public Record Office Acts to cease to have effect.
12. Northern Ireland.
13. Short title, repeals and commencement.

FIRST SCHEDULE Definition of Public Records

Public Records Act 2005 New Zealand¹³

1. Title
2. Commencement

Part 1 Purpose, other preliminary provisions, and key administrative provisions

Subpart 1—Purpose and other preliminary provisions

3. Purposes of Act
4. Interpretation
5. Variations to application of Act
6. Exclusions from application of Act
7. Treaty of Waitangi (Te Tiriti o Waitangi)
8. Act binds the Crown

Subpart 2—Key administrative provisions

Archives New Zealand (Te Rua Mahara o te Kāwanatanga)

9. Continuation of Archives New Zealand

¹² Gweler: <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/Eliz2/6-7/51>

¹³ Gweler: <http://www.legislation.govt.nz/act/public/2005/0040/latest/DLM345529.html>

Chief Archivist

- 10. Chief Archivist
- 11. Functions and duties of Chief Archivist
- 12. Chief Archivist to act independently
- 13. Delegations by Chief Archivist

Archives Council

- 14. Archives Council established
- 15. Function of Archives Council
- 16. Administrative matters

Part 2 Recordkeeping requirements

Subpart 1—Key duties

- 17. Requirement to create and maintain records
- 18. Authority required to dispose of public records and protected records

Subpart 2—Control of public records

Registers

- 19. Registers

Disposal

- 20. Authority to dispose of public records

Transfer

- 21. Mandatory transfer of public records

Deferral of transfer

- 22. Deferred transfer of public records
- 23. Transfer of public records
- 24. Temporary return of public archives to controlling public office

Discharge

- 25. Discharge of public records

Approved repositories

- 26. Approval of repositories

Subpart 3—Standards, inspection, reporting, and audit

- 27. Standards
- 28. Application and content of standards
- 29. Inspection powers
- 30. Exemptions
- 31. Direction to report to Chief Archivist
- 32. Annual report on recordkeeping
- 33. Independent audits of public offices
- 34. Audit of recordkeeping practices of Chief Archivist
- 35. Audit reports

Subpart 4—Estray records, prescribed records, protected records, Ministers' papers, and private records

Estray records

36. Inspection of estray records

37. Other requirements for estray records

Prescribed records

38. Prescribed records

39. Acquisition of prescribed records

Protected records of local authorities

40. Protected records of local authorities

41. Transitional provision

Parliamentary records, Ministers' papers, private records, and other records

42. Chief Archivist may accept parliamentary records, Ministers' papers, and private and other records

Part 3 Public access

Determination of access status as open or restricted

43. Requirement to classify access status

44. Basis for determining access status

Access status of local authority records

45. Requirement to classify access status of local authority records

46. Basis for determining access status of local authority records

Open access records

47. Public inspection of open access records

48. Publication or copying of public archives

49. Prohibition on public access or copying

Restricted access records

50. Period for which restricted access may apply

Part 4 Appeal process and miscellaneous provisions

Subpart 1—Appeal process

51. Appeal to Minister by public office or by local authority

52. Commencement of appeal

53. Effect of appeal

54. Process of appeal

55. Recommendation of Archives Council

56. Decision of Minister

Subpart 2—Miscellaneous provisions

57. Application of Copyright Act 1994

58. Application of Official Information Act 1982

59. Charges for services

60. Protection of names

Offences and penalties

61. Offences

62. Penalties

Regulation-making power

63. Regulations

Savings and transitional provisions

64. Savings

65. Transitional provisions

Repeals and amendments

66. Repeals

67. Amendments to enactments

National Archives Of South Africa Act 1996¹⁴

Definitions

Establishment of National Archives of South Africa

Objects and functions of National Archives

National Archivist and staff

Powers and duties of National Archivist

Establishment, constitution and functions of National Archives Commission

Secretary and staff of Commission

Funds of Commission

Accountability

Annual Reports

Custody and preservation of records

Access and use

Management of public records

Acquisition and management of non-public records

Limitation of liability

Offences and penalties

Transitional provisions

Regulations

Repeal of laws

Short title and commencement

¹⁴ Gweler: https://en.unesco.org/sites/default/files/southafrica_act1996_engorof.pdf

Atodiad 3: Costiadau Dangosol

Nid yw'n bosibl nodi'n bendant beth fyddai costau'r gwahanol agweddau ar y broses o greu archif genedlaethol am y bydd y costau hyn yn dibynnu ar gwmpas y model a fabwysiedir a phenderfyniadau ynghylch sut y caiff ei gyflawni. Fodd bynnag, ar gyfer yr astudiaeth hon mae rhai costiadau bras wedi'u datblygu er mwyn rhoi rhyw syniad o'r costau sydd dan sylw.

- **Buddsoddiad cyfalaf: tua £15-20 miliwn**

Codi adeilad archifau proffil uchel sy'n cydymffurfio â safonau

Mae nifer y cofnodon analog y bydd angen eu storio yn debygol o fod yn gymharol fach – cynnydd o 20 metr llinellol y flwyddyn, o bosibl, ar gyfer cofnodion y llywodraeth. Byddai'r ffigur hwn yn uwch pe bai cwmmpas swyddogaethau'r archif genedlaethol yn cynnwys cyfrifoldeb am gasglu mathau ychwanegol o gofnodion e.e. cofnodion gweinidogion unigol y llywodraeth, neu gofnodion o bwys cenedlaethol nad ydynt yn rhai cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond un elfen o'r adeilad yw storfeydd ffisegol; mae gofynion eraill yn cynnwys ardaloedd prosesu casgliadau, ystafelloedd y staff a mannau cyhoeddus (ystafell ddarllen, man arddangos, man addysg a man cymunedol).

Byddai lefel yr awydd i gael adeilad tirnod ar gyfer y sefydliad cenedlaethol hwn hefyd yn effeithio ar y gost. Gallai adeilad yr archif amrywio o adeilad bach a gweithrediad sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaeth digidol (gan y byddai'r mwyafrif helaeth o'r casgliadau yn rhai digidol) i fan dinesig proffil uchel. Pe bai'r adeilad yn adeiladwaith amgylcheddol gadarn (fel cynllun 'Passivhaus' Swyddfa Cofnodion Swydd Henffordd) byddai hyn yn lleihau'r costau adeiladu a'r costau rhedeg yn sylweddol.

O brofiad archifau eraill yn y DU¹⁵ mae'r adroddiad hwn yn awgrymu y gallai adeilad archifau proffil uchel newydd sy'n cynnwys tua 60 o aelodau o staff, storfeydd ar gyfer un cilomedr o gasgliadau analog a mannau cyhoeddus deniadol gostio rhwng £15 miliwn ac £20 miliwn i'w godi (heb gynnwys prynu'r tir).

- **System Cadwraeth Ddigidol: tua £9 miliwn dros gylch o 5 mlynedd (£1.8 miliwn y.f.)**

Datblygu system cadwraeth ddigidol: systemau a staffio

Mae'r costiadau yn rhoi syniad bras iawn o'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu system cadwraeth ddigidol. Maent yn seiliedig ar gylch tybiedig o 5 mlynedd, ac yn cymharu seilwaith sy'n eiddo i'r sefydliad ei hun â chwmwl cyhoeddus. Mae'r angen i adolygu, uwchraddio ac adnewyddu systemau yn golygu bod gofynion datblygu yn gost barhaus dros bob cylch o 5 mlynedd.

Tasg / Adnodd staffio	Cwmwl Masnachol £000oedd	Ei seilwaith ei hun £000oedd
Gwariant cyfalaf ar ddadansoddi gofynion, datblygu a darparu	250	250
Gwariant cyfalaf ar seilwaith		2500
Rhentu seilwaith ar brydles	2000	
Saernïwr Datrysiadau'r Llwyfan (1)	425	425
Gweinyddwyr Systemau'r Llwyfan (3)	825	825
Rheoli'r Llwyfan (2 – gwahanol raddau))	450	450
Dadansoddwr IS/CS (1)	225	225

¹⁵ Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (PRONI) – adeilad proffil uchel newydd yn Titanic Quarter Belfast, a agorwyd yn 2011 am gost o £29 miliwn.

Profi Meddalwedd (2)	350	350
Datblygwyr Meddalwedd (4)	1000	1000
Saerniwy'r Datrysiadau (2)	850	850
Datblygwyr y We (3)	525	525
Rheolwyr (5 – gwahanol raddau)	1200	1200
Marchnata, allgymorth, addysg (4)	600	600
Cyfanswm y gost dros bum mlynedd (27 o aelodau o staff)	8700	9200

Dylid nodi, gan y bydd y cofnodion yn rhai digidol yn bennaf, y bydd angen i sefydliad unrhyw archif genedlaethol newydd gynllunio i sicrhau bod cyfran fawr o'i staff yn meddu ar arbenigedd ym maes technolegau digidol. Hefyd, bydd angen i'r sefydliad dalu cyfraddau'r farchnad am fod y sgiliau hyn yn brin ac mae galw am staff medrus yn y maes hwn ledled y byd.

D.S. Mae'r costau hyn yn rhai tybiannol ac *argymhellir yn gryf* y dylai unrhyw benderfyniad i sefydlu archif genedlaethol gynnwys manyleb wedi'i chostio'n llawn ar gyfer y swyddogaeth cadwraeth ddigidol.

- **Costau gweithredu refferiwr: £2.1-£7.5 miliwn y.f.**

Rheoli a chynnal a chadw'r adeilad; seilwaith TG; cyflenwadau a gwasanaethau; ymgysylltu â'r sector a'i gefnogi; ymgysylltu â'r cyhoedd (ar y safle, o bell, ar-lein); staffio (heb gynnwys cadwraeth ddigidol) – yn dibynnu ar raddfa'r gweithrediadau / y math o adeilad.

Byddai graddfeydd gweithredu cymaradwy¹⁶ yn awgrymu bod angen o leiaf 30 o aelodau o staff (heb gynnwys y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chadwraeth ddigidol, a gynhwyswyd yn y costiau uchod). Yn dibynnu ar y model a fabwysiedir byddai angen staff ychwanegol i gyflawni'r swyddogaethau estynedig. Dengys y tabl canlynol y costiau ar gyfer pob model, gan dybio cyflog cyfartalog o £30k fesul CALI (y cyflog cychwynnol ar gyfer archifydd yw £27k-£32k gyda staff cymorth a staff parabroffesiynol ar gyflogau llai). Nid yw'r costau hyn yn cynnwys sgiliau digidol penodol (yr ymdriniwyd â nhw uchod).

Costau blynyddol nad ydynt yn gostau staff sy'n seiliedig ar y gyllideb flynyddol nad yw'n cynnwys staff ar gyfer Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (£1.2 miliwn y.f.) gyda symiau ychwanegol ar gyfer swyddogaethau estynedig o dan bob model. Ar gyfer Model 5 mae'r ffigurau yn cynnwys y costau gweithredol ar gyfer rhwydwaith presennol yr awdurdodau lleol (yn seiliedig ar ffigurau 2017/18 CIPFA ar gyfer 8 gwasanaeth adrodd am gyfanswm cost o £3.5m) – yr amcangyfrifir eu bod tua £5m y.f. (ar draws y rhwydwaith presennol o 13 o wasanaethau).

Model	Nifer y Staff canolog	Cost staff canolog y.f. £000oedd	Cost staff nad ydynt yn rhai canolog y.f. £000oedd	Cost is-wasanaethau y.f. £000oedd	Cyfanswm y gost weithredol y.f. £m
2	30	900	1200		2.1
3	35	1050	1250		2.3
4	40	1200	1300		2.5
5	40	1200	1300	5000	7.5

¹⁶ Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (50 o aelodau o staff sy'n ymwneud ag archifau); Archifau Cenedlaethol Iwerddon (60 o aelodau o staff); Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon (73 o aelodau o staff parhaol); Archifau Seland Newydd (138 o aelodau o staff rhwng pedwar lleoliad).